



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol **Yr Athrofa**
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together

Llawlyfr PAP PDPA 2026-7

Fersiwn 6.0 Medi 2026



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

Diben y Llawlyfr Profiad Dysgu Proffesiynol yw darparu canllawiau clir a strwythuredig ar gyfer y rheiny sy'n ymwneud â lleoliadau ysgol, gan gynnwys addysgwyr athrawon yn yr ysgol a'r brifysgol a darpar myfyrwyr. Mae'n cynnwys gwybodaeth allweddol sy'n berthnasol i bob carfan (BA Blwyddyn 1, Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, a TAR), yn ogystal ag adnoddau a deunyddiau sy'n berthnasol i bob carfan.

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu dyddiadau leoliad, dull Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (PDPA) i ddatblygu addysgwyr dechreuwyr drwy fodel graddedig, a gweithgareddau a awgrymir ar gyfer amser pan nad yw'r darpar athro yn dysgu er mwyn cefnogi adfyfrio, cynllunio a dysgu proffesiynol ehangach. Mae'n nodi adnoddau mentora sydd wedi'u cynllunio i gefnogi sesiynau adborth, arwain trafodaethau proffesiynol, ac olrhain cynnydd, gan helpu i sicrhau profiad cyson a chefnogol i bawb. Ymgorfforir gweithgareddau sicrhau ansawdd er mwyn monitro safonau a llywio gwelliant parhaus ar draws lleoliadau.

Cydnabyddir llesiant fel blaenoriaeth, gyda chanllawiau wedi'u cynnwys ar reoli llwyth gwaith a dod o hyd i gymorth priodol. Mae'r llawlyfr hwn yn gweithredu fel pwynt cyfeirio a rennir, gan hyrwyddo eglurder, aliniad a dull cydweithredol ar draws partneriaethau ysgolion a phrifysgolion.

Ceir copi digidol o'r llawlyfr hwn ar gyfer mentoriaid ar <https://athrofa.cymru/cy/> a SharePoint PDPA yn a [Llawlyfrau a Chanllawiau](#)

Mae copi Saesneg ar gael ar www.athrofa.cymru ac y SharePoint PDPA [Handbooks & Guidance](#) a

Ar gyfer darpar athrawon, ceir copïau digidol ar Moodle.

© UWTSD 2026

Cynnwys

Bod yn fentor yn y PDPA	4
Dull graddedig tuag at addysgu.....	8
BA1 – PAP1	13
Trosolwg PAP1:	13
Cynorthwyo darpar athrawon BA1 i adfyfrio ar PAP:.....	16
Dyddiadau Allweddol PAP BA1:.....	17
BA2 - PAP2.....	19
Trosolwg PAP2:	19
Cynorthwyo darpar athrawon BA2 i adfyfrio ar PAP:.....	22
Diwrnodau Allweddol PAP BA2:.....	22
BA3 – PAP3	25
Dyddiadau PAP BA3 allweddol:	29
TAR – PAP1	32
Trosolwg PAP1:	32
Cefnogi adfyfrio darpar athrawon TAR ar PAP1:	35
TAR – PAP2	38
Dyddiadau Allweddol PAP2 TAR:	38
Cefnogi darpar athrawon TAR i adfyfrio ar PAP2.....	42
Dyddiadau Allweddol PAP2:.....	42
Llinynnau Canolog.....	46
Cynnydd disgwyledig yn erbyn Safonau SAC ar gyfer y rhaglen BA	48
Cynnydd disgwyledig yn erbyn Safonau SAC ar gyfer y rhaglen TAR	50
Proses a Gweithdrefnau Ymyrraeth.....	52
Y tîm o amgylch y darpar athro a chefnogi llesiant	53
Cefnogi Llesiant	56

Bod yn fentor yn y PDPA


Mae mentoriaid yn chwarae rôl hanfodol ar raglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru, gan gefnogi twf proffesiynol darpar athrawon a sicrhau profiadau dysgu o ansawdd uchel. Mae eu gwaith yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r meini prawf achredu a osodwyd gan y Cyngor Gweithlu Addysg (CGA) sy'n pwysleisio pwysigrwydd mentora effeithiol, adfyfyriol o fewn partneriaethau ysgol-prifysgol cryf. Drwy fodelu arfer proffesiynol ac arwain adfyfyrio beirniadol, mae mentoriaid yn helpu darpar athrawon i fodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ac yn eu paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Drwy broses o gyd-adeiladu, mae'r agweddau y mae mentoriaid PDPA yn eu hymgorffori wedi'u cofnodi isod. Mae'r nodweddion a'r ymddygiadau hyn yn adlewyrchu gwerthoedd craidd mentora effeithiol, ac rydym yn falch bod ein mentoriaid yn eu harddangos yn gyson yn eu harfer.

Er mwyn cefnogi mentoriaid i ddatblygu'r ddealltwriaeth, y sgiliau a'r agwedd sydd eu hangen ar gyfer mentora effeithiol, mae'n ofynnol i'r holl Uwch Fentoriaid ac Arweinwyr Rhwydwaith gwblhau Gradd 1 o'r Rhaglen Datblygu Mentoriaid cyn y Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP). Gellir gwneud hyn wyneb yn wyneb, drwy'r sesiwn a recordiwyd, neu drwy fynychu'r hyfforddiant min nos.

Disgwylir i Uwch Fentoriaid gyflwyno'r hyfforddiant hwn i'r mentoriaid Dosbarth / Pwnc yn eu lleoliadau eu hunain. Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i ategu gan nifer o adnoddau anghydamserol sydd ar gael ar SharePoint PDPA, www.athrofa.cymru a chynigir cyfleoedd gloywi ychwanegol drwy gydol y flwyddyn. Yn eu tro, rhaid i Fentoriaid Dosbarth/Pwnc gadarnhau eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant drwy gwblhau holiadur byr cyn i'r PAP ddechrau. Gellir cael mynediad at y ffurflen yma: <https://forms.office.com/e/BzXiHyBgV9>

Yn ogystal, mae'n hanfodol bod pob mentor yn adolygu ac yn ymgyfarwyddo â chynnwys y llawlyfr.



Argymhellir yn gryf fod pob mentor yn nodi'r dolenni canlynol er mwyn cyfeirio atynt drwy'r flwyddyn

Dogfennau Canllaw:

- Deunyddiau canllaw ac adnoddau

Mae nifer o adnoddau a dogfennau canllaw (gan gynnwys llawlyfrau PAP, Llawlyfrau'r Bartneriaeth) ar gael ar y wefan isod. Sylwer bod y rhain ar gael ar SharePoint hefyd:

<http://athrofa.cymru/cy/mentoriad>

- SharePoint PDPA

Cadwrfwrfa ar gyfer adroddiadau darpar athrawon, Proffiliau Un Dudalen, Dolenni OneDrive a dogfennaeth ymyrraeth

<https://uowtsd.sharepoint.com/teams/PDP A-APLP>

- Cais mynediad ar gyfer SharePoint

Os nad oes gennych fynediad i SharePoint PDPA, cwblhewch y ffurflen hon:

<https://forms.office.com/e/6i44paBisF>

- Trosolwg y Rhaglen a Chalendr Lleoliad:

Mae safle Teamup yn rhoi trosolwg o holl elfennau y raglenni a addysgir a'r rhaglenni ymarferol ar gyfer pob carfan, gan gynnwys gweithgareddau Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP).

<https://teamup.com/ksyu78okbjkw1h7vtc>

Adnoddau Mentora:

- Hyfforddiant Mentora Gradd 1 Cadarnhad o Gwblhau'r Broses

Disgwylir i bob mentor ymgymryd â'r hyfforddiant hwn er mwyn cefnogi cysondeb ac ansawdd ar draws y Bartneriaeth.

<https://forms.cloud.microsoft/e/ZaXvWvH9uk>

Gweithgaredd Sicrhau Ansawdd i Uwch Fentoriaid

Disgwylir i Uwch Fentoriaid arsylwi Mentoriaid Dosbarth / Pwnc yn cynnal sesiwn adborth unwaith bob PAP.

<https://forms.office.com/e/3MrrW1rxTc>

- Cofnodi Arfer Mentora Effeithiol

Mae'r ffurflen hon yn cofnodi mentora effeithiol o'r PDPA er mwyn cefnogi'r broses o rannu arfer yn bwrpasol ac yn strategol.

<https://forms.office.com/e/ZMugGK0CYL>

- Newidiadau i Wybodaeth Gyswllt Ysgolion

Defnyddiwch y ffurflen hon i roi gwybod i ni am unrhyw ddiweddariadau i gysylltiadau ysgol allweddol. Bydd manylion cywir yn helpu i sicrhau cyfathrebu llyfn a chefnogaeth leoliad effeithiol.

<https://forms.office.com/e/610XGZBXGG>

- Adnoddau Cymraeg

<https://uowtsd.sharepoint.com/teams/PDP A-APLP>
www.athrofa.cymru

Adnoddau Llesiant:

- Ffurflen Achos Pryder

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch llesiant darpar athro, cwblhewch y ffurflen hon a fydd yn cael ei brysennu gan aelod o dîm Gwasanaethau Myfyrwyr:

<https://live.uniticms.com/uowtsd/register/?form=welfare>

- Arweinwyr Diogelu Dynodedig

Dave Stacey – Cyfarwyddwr Academaidd

Dave.stacey@uwtsd.ac.uk

Laurence Thomas – Arweinydd Strategol y
Bartneriaeth

Laurence.thomas@uwtsd.ac.uk

Rachel Bendall – Arweinydd Strategol y
Gymraeg, Llesiant ac Tegwch

Rachel.bendall@uwtsd.ac.uk

Ian Jones - Rheolwr Rhaglen TAR
(Uwchradd)

Ian.jones@uwtsd.ac.uk

Jayne Morgan - Rheolwr Rhaglen TAR
(Cynradd)

Jayne.morgan@uwtsd.ac.uk

Manylion cyswllt allweddol

Swyddfa'r Bartneriaeth: Cysylltwch â

Partnership@uwtsd.ac.uk neu

Partneriaeth@pycydds.ac.uk ar gyfer materion
yn ymwneud â'r Bartneriaeth.

HAEN 1: Adeiladu Capasiti Mentoriaid



Rhaglen Datblygu Mentoriaid

Mae ein Rhaglen Datblygu Mentoriaid (RhDM) wedi'i gynllunio i arfogi mentoriaid â'r sgiliau a'r strategaethau i gefnogi darpar athrawon yn effeithiol.



Hyfforddiant Uwch Fentoriaid

Darperir hyfforddiant uwch fentoriaid yn flynyddol i bob uwch fentor. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys darparu RhDM Gradd 1 a hyfforddiant ychwanegol, pwrpasol wedi'i deilwra i flaenoriaethau strategol.




Adnoddau Cydamserol a Deunydd Mentoriaid

Mae ystod o ddeunyddiau mentoriaid cydamserol ar gael i'n partneriaid mewn ysgolion, gan gynnwys fideos byr mentora, canllawiau cymorth, a sesiynau galw heibio

HAEN 2: CYLCH SA/CA CRAIDD

Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP)



Prif Ddeilliannau'r Cylch SA/CA

Mae'r prosesau SA hyn yn creu dolenni adborth parhaus sy'n nodi ac yn lledaenu arfer gorau, yn mynd i'r afael â materion yn gynnar, ac yn sicrhau hyfforddiant cyson, o ansawdd uchel ar draws y rhwydwaith.

Sicrhau Ansawdd mewn Profiad Addysgu Proffesiynol

- Ymweliadau cynnar i sicrhau bod gan ddarpar athrawon a mentoriaid yr adnoddau a'r gefnogaeth angenrheidiol
- Sesiynau arsylwi ar adborth SA Uwch Fentoriaid i wella arfer mentora
- Ymweliadau Cyd-adolygu lle mae Arweinwyr Rhwydwaith neu Diwtoriaid Prifysgol yn arsylwi ar wersi unwaith y PAP
- Cyfarfodydd SA ar lefel rhwydwaith i nodi cryfderau, cytuno ar flaenoriaethau, ac annog gwelliant parhaus

HAEN 3: ADOLYGIAD STRATEGOL



Grŵp Arwain PDPA– SA, Partneriaeth a Llywodraethu

- Prosesau SA/CA yn bwydo i mewn i'r is-grŵp hwn o Grŵp Arwain PDPA
- Arweinydd Strategol y Bartneriaeth, y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn adrodd ar gynnydd a chamau.



Adolygu Data PAP

- Mae data crynodedol o holl weithgareddau Haen 2, gan gynnwys dadansoddiadau yn ôl Safonau Addysgu Proffesiynol, carfan, a rhwydwaith, yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Grŵp Arweinyddiaeth.
- Camau gweithredu a'r camau nesaf yn cael eu nodi ar y cyd i dargedu cymorth lle bo angen.



Dolenni Adborth Allweddol

- Mae canfyddiadau SA / CA yn sail i Hyfforddiant Uwch Fentoriaid a RhDM y flwyddyn nesaf.
- Yn sicrhau gwelliant parhaus a'r gallu i ymateb i flaenoriaethau'r bartneriaeth.




Ymgysylltu â Phartneriaid Rhanbarthol

- Mae adolygiadau dwywaith y flwyddyn o ddata SA a CA yn nodi cryfderau, yn mynd i'r afael â materion, ac yn sail i hyfforddiant.
- Mae Partneriaid Rhanbarthol yn adolygu addasrwydd ysgolion ac yn cefnogi lleoliadau yn flynyddol gydag Arweinwyr Rhwydwaith drwy gydol y flwyddyn


Dull graddedig tuag at addysgu

Mae gan ddarpar athrawon amserlen ddysgu amser llawn. Mae’r cydbwysedd rhwng addysgu a gweithgareddau eraill yn newid dros y flwyddyn - ‘dull graddedig’. Mae dechrau’r cwrs yn cynnwys cyfuniad o addysgu tîm, cyflwyno rhan o wers a rhan o wers / dysgu grŵp. Ochr yn ochr â hyn, dylent ymgymryd ag arsylwi â ffocws a chael amser i gynllunio gwersi, gan gynnwys cyd-gynllunio gyda chydweithwyr mwy profiadol. Dangosir hyn yn y diagramau isod:

TAR



BA



Dylid rhoi cyfrifoldebau dosbarth cyfan i ddarpar athrawon o ddechrau'r cyfnod PAP, e.e. cymryd cyfrifoldeb dros reoli arferion **dosbarth cyfan** – croesawu a rhyddhau disgyblion o'r dosbarth, trefnu a chlirio adnoddau a chymryd y gofrestr. Dylai darpar athrawon brofi rôl ehangach yr athro lle bo hynny'n bosibl, e.e. dyletswydd ar yr iard chwarae, mynychu gwasanaethau, ymweliadau cymorth neu glybiau ar ôl ysgol.

Mae'n hanfodol bod Mentoriaid Dosbarth / Pwnc yn annog darpar athrawon i feithrin arloesedd wrth weithredu o fewn y ffiniau a osodir gan gynlluniau adrannol a'r cwricwlwm. Mae hyn nid yn unig yn meithrin twf dulliau addysgu arloesol, ond mae hefyd yn grymuso'r darpar athrawon â'r sgiliau angenrheidiol i gynnal addysgu hunan-ddibynnol a gwreiddiol.

Hyrwyddir dulliau addysgeg o hyfforddi a chyd-addysgu er mwyn datblygu annibyniaeth, e.e.

- Un yn addysgu, un yn arsylwi;
- Addysgu tîm;
- Addysgu cyfochrog

Disgwylir i'r darpar athrawon hynny sy'n gwneud cynnydd da fynd y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol ac fe'u hanogir i wneud hynny.

Disgwylir y bydd darpar athrawon yn cael eu goruchwyllo yn yr ystafell ddosbarth gan athro cymwys bob amser.

Cynllunio Gwersi / Sesiynau

Fel y nodwyd uchod, rhaid i ddarpar athrawon a Mentoriaid Dosbarth / Pwnc gyd-gynllunio'r gwersi i'w cyflwyno yn yr wythnos gyntaf yn ystod y cyfnod paratoi (fel y bo'n briodol yn ôl lefel anghenion y darpar athro).

Dylent barhau i gyflwyno eu cynlluniau i'w mentor Dosbarth / Pwnc **dau ddiwrnod gwaith ymlaen** llaw er mwyn gwirio'r addasrwydd a'r safon. Dylent

ddangos eu bod yn ymgymryd â rôl yr athro, nid rôl gynorthwyol.

Mae'n bwysig bod y Mentoriaid Dosbarth / Pwnc, Uwch Fentoriaid yn rhoi gwybod i'r Arweinydd Rhwydwaith o *unrhyw bryderon* ynghylch y Ffeil Addysgu Electronig PAP a/neu waith paratoi cyffredinol ar gyfer y profiad.

Gall darpar athrawon ddefnyddio templedi / prosesau cynllunio ysgol ar gyfer PAP2 TAR a PAP3 BA3 ar ôl y pythefnos cyntaf yn eu lleoliad (yr wythnos baratoi a'r wythnos ganlynol), cyn belled nad yw'r darpar athrawon ar gynllun ymyrryd neu yr ystyrir bod angen cymorth ychwanegol arnynt.

Gweithgaredd ar gyfer amser pan nad yw'n amser addysgu:

Gan adeiladu ar egwyddor cyd-adeiladu, mae'r PDPA wedi datblygu rhaglen strwythuredig o ddatblygiad wedi'i sgaffaldio ar gyfer amser pan nad yw'r darpar athrawon yn addysgu. Mae hon wedi'i chynllunio i gefnogi darpar athrawon wrth ymgysylltu a dull graddedig o addysgu. Mae hyn yn golygu nad oes disgwyl iddynt ymgymryd ag amserlen addysgu lawn ar unwaith; mewn gwirionedd, gall eu hymrwymiad addysgu gael ei leihau'n sylweddol ar y dechrau.

Mae'r PDPA yn cydnabod er efallai nad yw darpar athrawon bob amser yn arwain addysgu dosbarth cyfan, maent yn cymryd rhan mewn amserlen ddysgu lawn. Mae hyn yn cynnwys ystod o weithgareddau pwrpasol megis darllen ac ymchwilio proffesiynol, arsylwi ar ymarferwyr profiadol ac adfyfrio beirniadol ar eu harfer datblygedig eu hunain. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am weithgareddau yn ystod yr amser nad yw'n amser addysgu isod.

Gweithgareddau hanfodol:

- **UN** sesiwn PAP yr wythnos (fel rhan o'r amser digyswllt): Mae'r ddarpariaeth hon ar ddisgresiwn yr ysgol, er enghraifft,

gellir cyd-fynd ag amser CPA y Mentor Dosbarth / Pwnc. Disgwylir bod y darpar athro'n aros ar safle'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn (hyd yn oed os yw'r ysgol yn gweithredu system wahanol i'w staff). Er nad oes sicrwydd y bydd y CPA gyda'r Mentor Dosbarth / Pwnc, mae'n bwysig bod y Mentor Dosbarth / Pwnc yn gallu darparu rhywfaint o amser yn ystod yr wythnos i drafod unrhyw gwestiynau/pryderon/heriau a allai fod gan y darpar athro a darparu arweiniad a chymorth ar gyfer cynllunio gwersi/gweithgareddau.

- **Adfyfrio Pythefnosol** – rhaid neilltuo amser bob pythefnos i drafod cynnydd a negodi targedau proffesiynol gyda'r Mentor Dosbarth / Pwnc. Cyfeiriwch at y ddogfen ganllaw yma:
- Sgwrs wythnosol anffurfiol gyda'r Uwch Fentor

Gweithgareddau a argymhellir:

- Arsylwi'r addysgu mewn lleoliadau, oeddrannau a Meysydd Dysgu a Phrofiad gwahanol
- Cyfleoedd i gysgodi athrawon gyda chyfrifoldebau penodol, h.y. CADY, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, arweinwyr bugeiliol a phwnc;
- Cyfleoedd i ymwneud â rhieni, llywodraethwyr a chydweithwyr o asiantaethau eraill;
- Mynediad at gynlluniau datblygu a pholisïau'r ysgol sy'n briodol i ddarpar athrawon (h.y. diogelu ac amddiffyn plant, dysgu ac addysgu, marcio ac adborth ac ymddygiad);
- Cyfleoedd i gyflawni gwaith ymchwil, darllen ehangach, cynllunio a pharatoi e.e. gweithgareddau Pontio.

Yn ogystal, fe fydd cyfleoedd hyfforddi pan na fydd darpar athrawon yn addysgu – gweler y rhaglen seminarau isod.

Rhaglen Seminarau Astudiaethau Proffesiynol:

Disgwylir i ysgolion gynnig amrywiaeth o seminarau i gefnogi datblygiad proffesiynol darpar athrawon. Gellir trefnu seminarau i gwrdd ag anghenion darpar athrawon, a rhestrir rhai awgrymiadau isod.

1. Cynllunio:

- Sut mae'r ysgol yn cynllunio'r cwricwlwm?
- Sut mae athrawon yn cynllunio cyfres o wersi?
- Cynllunio ar gyfer oedolion ychwanegol

2. Rheoli Ymddygiad

- Polisïau a strategaethau (e.e. dull cyfiawnder adferol)

3. Asesu

- Cyflwyniad i weithdrefnau tracio a monitro ar lefel dosbarth
- Defnyddio Asesu ar gyfer Dysgu yn yr ysgol gyfan
- Marcio ac adborth i ddysgwyr

4. Datblygu'r Gymraeg

- Sut mae'r ysgol yn cynllunio i ddatblygu'r Gymraeg?

5. Dulliau o gefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr

Cyfnod paratoi:

Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i ddarpar athrawon wneud y canlynol:

- Cwblhau hyfforddiant diogelu gan Arweinydd Diogelu Dynodedig (ADD) yr ysgol a darllen y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu cysylltiedig; Nodwch hefyd y dylai hyn gynnwys mewnbwn gwrth-hiliol.
- Ymgyswrtio â pholisïau pwysig yr ysgol, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud ag

ymddygiad, marcio, lechyd a Diogelwch, Diogelu a Covid-19;

- Cwrdd ag aelodau allweddol o staff yr ysgol, gan gynnwys: CADY, Mentor y Gymraeg, ADD a'r Uwch Fentor;
- Gan ddefnyddio templed cynllunio'r brifysgol, cydweithio â'r mentor dosbarth i gynllunio'r wers gyntaf i'w chyflwyno;
- Cadarnhau gofynion yr ysgol o ran ymddygiad proffesiynol (amseroedd cyrraedd a gadael, cod gwisg, hysbysu'r ysgol am absenoldeb a gofyn am ganiatâd i fod yn absennol);
- Cael gwybodaeth ynghylch trefniadaeth yr ysgol, ei hethos, y staff, a'r trefniadau ar gyfer y diwrnod ysgol;
- Cael caniatâd i dynnu lluniau/ffilmio plant: Rhaid gofyn caniatâd y Pennaeth neu'r Uwch Fentor cyn tynnu lluniau neu ffilmio dysgwyr. Dylai'r Pennaeth neu'r Uwch Fentor lofnodi ffurflen ganiatâd y Brifysgol a dylid ei lanlwytho i Adran 2 Ffeil Addysgu Electronig y PAP ar 'OneDrive';
- Cael dealltwriaeth o'r dysgwyr yn y lleoliad;

Dylent gwblhau'r amserlen wythnosol electronig ar gyfer yr wythnos gyntaf o addysgu gan ddefnyddio fformat y Brifysgol a'i lanlwytho i Adran 1 o'r Ffeil Addysgu Electronig PAP ar 'OneDrive'.

- Ymgysylltu a rhyngweithio â dysgwyr a staff, a dod yn gyfarwydd â rheolau ac arferion yr ysgol trwy ymgymryd â rôl ehangach yr athro lle bo hynny'n bosibl, e.e. dyletswydd amser chwarae.

Ffeil Addysgu Electronig y PAP (OneDrive)

Dylai darpar athrawon lanlwytho'r ddolen mynediad at y ffeil electronig ar 'OneDrive' i'w ffolder Sharepoint. Bydd hyn yn caniatáu i'r Mentor Dosbarth, yr Uwch Fentor, yr Arweinydd Rhwydwaith a'r Tiwtor Prifysgol gyrchu'r ffolder pan fo'n gyfleus iddynt. Dylai'r Mentor Dosbarth / Pwnc fonitro'r ffeil yn wythnosol. [Bydd yr Uwch Fentor yn goruchwyllo'r monitro hwn yn rhan o'i rolau a'i gyfrifoldebau.](#)

Mae'r adrannau a ganlyn yn ofynnol yn y ffeil addysgu:

ADRAN 1: Gwybodaeth gyffredinol

- Safonau SAC
- Amserlenni: Amlinellir cyfrifoldebau addysgu'r darpar athro; dylai hyn fod wedi'i drafod gyda'r Mentor Dosbarth/Pwnc, a'i gytuno, erbyn y dydd Gwener cyn yr wythnos ganlynol, fan bellaf. Dylid dilyn fformat y Brifysgol

ADRAN 2: Cyd-destun yr ysgol

- Manylion y ffordd y caiff y plant eu grwpio/setio (fel y bo'n briodol)
- Polisiâu'r ysgol sy'n gysylltiedig â strategaethau dysgu ac addysgu, disgyblu, bwlio, diogelu, gan gynnwys manylion cyswllt yr aelod o staff Diogelu dynodedig.
- Caniatâd i dynnu lluniau/ffilmio dysgwyr

ADRAN 3: Cynllunio

- **Cynlluniau gwersi, adfyfrio a gwerthusiadau:** Dylid paratoi cynlluniau ar gyfer pob sesiwn addysgu gan ddilyn fformat y Brifysgol; dylid adfyfrio ar y profiad dysgu a'i werthuso cyn gynted â

phosibl ar ôl pob gwers/sesiwn, gan nodi meysydd i'w datblygu yn y Dyddlyfr Dysgu.

- **Cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi:** Dylai darpar athrawon mewn lleoliad Dysgu Sylfaen gwblhau unrhyw flychau perthnasol yn nhempled y brifysgol ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi sydd wedi'u cynllunio. Nid oes angen nifer lleiaf na nifer uchaf.

Gan fod y ffeil addysgu'n gyhoeddus, ni ddylai darpar athrawon gynnwys unrhyw beth y gellid ei ystyried yn dor-gyfrinachedd o ran yr wybodaeth a ddarperir, nac a allai dramgwyddo pobl eraill.

Mae'r wybodaeth isod yn gosod y disgwyliadau allweddol ar gyfer y Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP) ar gyfer darpar athrawon BA1. Mae'n gynnwys trosolwg o'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd adfyfrio pythefnosol, manylion o weithgareddau safon ansawdd (SA) cynlluniedig, a'r rhestr ar gyfer adrodd. Cynllunnir yr elfennau hyn i gefnogi darpar athrawon a mentoriaid wrth sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn llyfn ac yn bodloni gofynion y rhaglen. Cadwch yr wybodaeth hon wrth law a chyfeiriwch ati yn rheolaidd yn ystod y PAP i'ch helpu i gadw ar y trywydd iawn ac yn barod ar gyfer pob cam.

Trosolwg PAP1:

Ymgysylltu cyn PAP	Profiad Addysgu Proffesiynol
Pontiau Bach	PAPa – 04.01.27 – 22.01.27
09/11/26	PAP1b – 15.02.27 – 05.03.27
16/11/26	<i>Sylwer: Gellir cwblhau tasgau a nodwyd ar gyfer y 'cyfnod paratoi' (gweler t.10/11) yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyn PTE, ond RHAIID eu cwblhau erbyn 08.01.27</i>
23/11/26	
30/11/26	
07/12/26	

Gweithgaredd y rhaglen		
Cyn y lleoliad	Yn ystod y lleoliad	Yn dilyn y lleoliad:
<u>Pwy ydw i'n dysgu? ECAD4016</u> Dyddiad cyflwyno 02.11.26 Mae'r modiwl hwn yn galluogi'r darpar-athrawon i archwilio datblygiad plentyn (0–19), lles, a ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar ddysgu. Trwy'r model 'cwrdd, profi, rhannu', byddant yn ymarfer arsylwi dysgwyr, myfyrio ar ymarfer, ac archwilio damcaniaethau allweddol, ymchwil, a chyfrifoldebau proffesiynol Mae'r modiwl hefyd yn tynnu sylw at strategaethau i gwrdd		<u>ECAD4015: Datblygu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol proffesiynol (18.03.27)</u> Rhoi i fyfyrwyr y sgiliau hanfodol sydd eu hangen i addysgu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn effeithiol trwy addysgeg drawsgwricwlaidd. <u>Cyflwyniadau arwain yr addysgu – ECAD4017 - 12.03.27</u> <u>Y Gymraeg mewn Arfer Proffesiynol</u>

ag anghenion dysgwyr amrywiol a'u perthnasedd i rôl yr athro. <u>Ymchwilio i'r Dysgu: ECAD4019</u> – dyddiad cyflwyno'r aseiniad 05.01.26 Mae darpar athrawon yn cael eu cyflwyno i ymchwil seiliedig ar yr ystafell dosbarth yn y modwl hwn. Byddant yn datblygu dealltwriaeth o'r ymagweddau ymchwil, ymarfer moesegol a dod yn ymchwilydd medrus drwy ddefnyddio arsylwi yn yr ysgol. <u>Arwain y Dysgu – ECAD4017</u> Mae'r modwl hwn sydd â ffocws ar addysgeg, cwricwlwm ac asesu effeithiol, yn rhoi'r cyfle i ddarpar athrawon ddeall sut i gynllunio, caffael adnoddau, cyflwyno, asesu a gwerthuso profiadau dysgu effeithiol ar gyfer Dysgu Sylfaen. Cyflwynir myfyrwyr i ystod eang o bynciau perthnasol cyn mynd ar leoliad, gan gynnwys y chwe MDaPh, Dysgu Sylfaen a dulliau o ymdrin ag asesiadau. <u>Y Gymraeg mewn Arfer Proffesiynol ECAD4020</u> Mae darpar athrawon yn cwblhau 13 sesiwn o ddwy awr yr un i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg, dysgu dulliau iaith sector penodol, ac archwilio'r cyd-destun cenedlaethol, gan gynnwys gofynion y Cwricwlwm i Gymru a Deddf y Gymraeg mewn Addysg 2025. <u>Pontio 7.10.26 a 14.10.26 – Archwilio datblygiad emosiynol.</u>		<u>ECAD4020</u> Ar ôl gorffen addysgu yn y lleoliad, bydd darpar athrawon yn datblygu eu sgiliau Cymraeg a'u dulliau dysgu ymhellach, gan gyflwyno portffolio gyda fideo o wers fer yn ogystal â chynllunio ac adnoddau. <u>Ble ydwi'n addysgu?</u> ECAD4018 – dyddiad cyflwyno'r aseiniad 04.05.27 Bydd darpar athrawon yn edrych ar sut mae'r gymuned leol yn dylanwadu ar yr ysgolion a'r dysgwyr yn y modwl hwn. Byddant yn dysgu sut mae ysgolion yn ymgysylltu â'u cymunedau rhieni / gofalcwyr, gan gynnwys sut y maent yn cefnogi plant i fod yn barod i ddechrau yn yr ysgol. Yn ogystal, maent yn edrych ar sut y gall yr ardal leol fod yn lleoliad cyfoethog ar gyfer dysgu mewn cyd-destun dilys.
--	--	---

<u>cymdeithasol a gwybyddol dysgwyr</u> Mae'r diwrnodau PRAWF sydd â ffocws emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol yn rhoi'r cyfle i ddarpar athrawon wneud cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer. Byddant yn datblygu eu dealltwriaeth o rai o'r strategaethau, polisïau a dulliau y mae'r ysgol yn eu defnyddio i sicrhau datblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol eu dysgwyr, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd darpar athrawon yn cwblhau dogfen STEER fanwl i gefnogi a chofnodi eu hymchwiliadau. <u>Diogelu, PREVENT a Dangos y Garden Goch i Hiliaeth</u> Bydd darpar athrawon yn derbyn mewnbwn ar bolisïau diogelu'r brifysgol ac ysgolion, yn ogystal â hyfforddiant 'Dangos y Garden Goch i Hiliaeth' a PREVENT. Mae disgwyl iddynt gwblhau hyfforddiant diogelu yn eu hysgolion PAP er mwyn atgyfnerthu a chyd-destunoli eu dysgu yn y brifysgol.		
--	--	--

Fel rhan o'r dull graddedig o ddysgu i addysgu ac amserlen ddysgu 100%, mae'r canlynol yn amlinellu'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan ddarpar athrawon BA1 yn eu harfer addysgu. Mae'r disgwyliadau hyn wedi'u cynllunio i arwain datblygiad darpar athrawon a'u helpu i feithrin hyder wrth iddynt symud ymlaen trwy'r flwyddyn.

	Disgwyliadau Addysgu PAP
BA1	30% - addysgu â chymorth 20% - datblygu annibyniaeth 50% - gweithgareddau ar gyfer amser nad yw'n amser addysgu, fel yr amlinellir isod

Cynorthwyo darpar athrawon BA1 i adfyfrio ar PAP:

Yn unol â dull PDPA at addysgu trawsnewidiol, disgwylir i ddarpar athrawon sy'n ymgymryd â'u Profiad Addysgu Proffesiynol gymryd rhan mewn ystod o arferion adfyfryol. Amlinellir y rhain isod er mwyn arwain a chefnogi'r twf proffesiynol yn ystod y lleoliad.

Dogfen	Natur y Ddogfen	Amserlen/ Monitro
Dyddlyfr dysgu Rhaid i'r darpar athro fod â'i ddyddlyfr dysgu ei hun yn barod ar gyfer dechrau'r PAP	Cofnod ffurfiannol dyddiol parhaus o nodiadau adfyfrio proffesiynol ar brofiadau'r lleoliad a gedwir gan y darpar athro ac a rennir â'r Mentor Dosbarth/Pwnc, yr Uwch Fentor a'r Arweinydd Rhwydwaith fel y bo'n briodol. Mentoriaid i gynnig adborth i ddarpar athrawon (mewn sgwrs a/neu yn ysgrifenedig yn y dyddlyfr) yn ddyddiol. Gweler dogfen ganllaw'r Dyddlyfr Dysgu am ragor o wybodaeth - Llawlyfrau a Chanllawiau SYLWER: Dylai'r Dyddlyfr Dysgu ffurfiannol fod yn ddienw ac wedi'i ysgrifennu mewn modd proffesiynol.	Yn ddyddiol Dylai'r Dyddlyfr Dysgu fod ar gael at sylw'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn ddyddiol Caiff y defnydd o'r Dyddlyfr Dysgu ei fonitro gan yr Uwch Fentor yn wythnosol
Cyfarfod Adfyfrio Pythefnosol	I'w gwblhau gan y darpar athro gyda'r Mentor Dosbarth / Pwnc mewn proses gydweithredol . Dylai hyn fod yn seiliedig ar gyfarfod adolygu wythnosol ffurfiol ar yr amserlen i drafod cynnydd a chytuno ar dargedau mesuradwy. Mae hwn yn gyfle i drafod tystiolaeth o'r dyddlyfr dysgu a chynlluniau gwersi. Rhaid i'r darpar athro gwblhau templed Adfyfrio Pythefnosol yn y PDP - a fydd yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth a rennir o gynnydd a thargedau y cytunwyd arnynt. Gellir dod o hyd i ganllawiau cefnogol, yma, Llawlyfrau a Chanllawiau	WC 11.01.27 WC 22.02.27 WC 01.03.27 – cwblhau camau 4 a 5 yn unig

Cyfarfod Ailgysylltu	Mae cyfarfod ailgysylltu yn caniatáu i'r mentor a'r darpar athro drafod digwyddiadau ers y lleoliad diwethaf, gan gynnwys newidiadau i amgylchiadau'r dysgwr, dysgu prifysgol y darpar athro, a meysydd i'w canolbwyntio arnynt yn y cylch adfyfrio pythefnosol.	15.02.27
-----------------------------	--	-----------------

Dyddiadau Allweddol PAP BA1:

'Ymweliad cynnar'	Bydd yr Arweinydd Rhwydwaith neu Diwtor y Brifysgol yn ymweld â phob darpar athro. Yn ystod yr ymweliad hwn, trafodir disgwyliadau ynghylch PAP a rhennir unrhyw adnoddau priodol (mentora, llesiant ac ati) gyda darpar athrawon a mentoriaid.	04.01.27 – 17.01.27
Mentora Sicrhau Ansawdd	Disgwylir i Uwch Fentoriaid arsylwi ar Fentoriaid Dosbarth / Pwnc, gan gynnal sesiwn adborth <u>unwaith</u> bob PAP. Sylwer bydd y mentoriaid Dosbarth / Pwnc yn dod at ei gilydd er mwyn adolygu'r sesiwn gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir – https://forms.office.com/e/3MrrW1rxTc Yn ychwanegol, mae'r ffurflen hon yn cofnodi mentora effeithiol gan y PDPA er mwyn cefnogi'r broses o rannu pwrpasol a strategol. https://forms.office.com/e/ZMugGK0CYL	11.01.27 – 22.01.27
"Adroddiad Canol Lleoliad"	Eleni, rydym yn gofyn i fentoriaid roi un targed clir â ffocws i ddarpar athrawon weithio arno pan fyddant yn dychwelyd i leoliadau. Dylai'r targed fod yn SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyfiawnadwy, Perthnasol, ac amser-benodol - gweler y canllawiau) ac wedi'i gysylltu â'r cam nesaf yn natblygiad y darpar athro. Drwy ganolbwyntio ar un nod sydd wedi'i diffinio'n dda, gallwn helpu darpar athrawon BA1 i wneud cynnydd hyderus mwy targedig wrth iddynt symud rhwng y Brifysgol a'r lleoliad ysgol. Dylid tynnu ar dystiolaeth o'r dyddlyfr dysgu a'r adfyfrio pythefnosol.	20.01.27
Ymweliad Adolygu ar y Cyd	Bydd yr Ymweliad Adolygu ar y Cyd yn cael ei gynnal gan y Mentor Dosbarth a'r Uwch Fentor (<u>nid tiwtor y brifysgol neu'r Arweinydd Rhwydwaith</u>) Dylai'r amserlen gynnwys: arsylwi gwers a sesiwn adborth rhwng y Mentor Dosbarth a'r darpar athro;	01.03.27 – 05.03.27

	- cwrdd â'r darpar athro i drafod PAP gan gynnwys eu hymgysylltiad a'r adnoddau adfyfyriol – y Dyddlyfr Dysgu a'r Adfyfyrio Pythefnosol. - cwblhau gwaith papur – ffurflen arsylwi i'w chwblhau gan y Mentor Dosbarth a'i lanlwytho i SharePoint.	
Adroddiad Diwedd Lleoliad	Mae'r adroddiad ar ddiwedd y Lleoliad yn cael ei gwblhau gan y Mentor Dosbarth / Uwch Fentor erbyn y dyddiad cau a nodwyd. Sylwer bod rhaid ysgrifennu hwn yn y gorffennol gyda chofnod cywir o ddyddiadau a fynychwyd. <u>Sylwer bod rhaid i unrhyw ddarpar athrawon sydd ar Gynllun Ymyrryd dderbyn yr holl ddogfennaeth berthnasol ar eu cyfrif SharePoint cyn gadael y lleoliad.</u>	Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad 03.03.27 Lleoliad yn dod i ben 05.03.27
Diwrnodau PAP ychwanegol (dewisol)	Sylwer bod cyfle i ddarpar athrawon wneud yn iawn am unrhyw ddiwrnodau PAP a gollwyd ar y pwynt hwn. Dylai unrhyw ddyddiadau sy'n cael eu gwneud yn iawn hyd at y pwynt hwnt gael eu cofnodi ar adran presenoldeb y PAP a'u cynnwys mewn cyfansymiau presenoldeb yn yr Adroddiad Diwedd Lleoliad.	10.05.27 – 14.05.27

Mae'r wybodaeth isod yn gosod y disgwyliadau allweddol ar gyfer y Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP) ar gyfer darpar athrawon BA2. Mae'n gynnwys trosolwg o'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd adfyfrio pythefnosol, manylion o weithgareddau sicrhau ansawdd (SA) cynlluniedig a'r rhestr ar gyfer adrodd. Mae'r elfennau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi darpar athrawon a mentoriaid er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn llyfn ac yn bodloni gofynion y rhaglen. Cadwch yr wybodaeth hon wrth law a chyfeiriwch ati'n rheolaidd yn ystod y PAP i'ch helpu i aros ar y trywydd iawn ac yn barod ar gyfer pob cam.

Trosolwg PAP2:

Pre-PTE engagement	Profiad Addysgu Proffesiynol
Pontio Bach 09/11/26 16/11/26 23/11/26 30/11/26 07/12/26	PAP2: 04/01/27 – 19/02/27 <i>Sylwer: Gellir cwblhau tasgau a nodwyd ar gyfer y 'cyfnod paratoi' (gweler t.10/11) yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyn PTE, ond RHAIID eu cwblhau erbyn 08.01.27</i>

Gweithgaredd y rhaglen		
Cyn y lleoliad	Yn ystod y lleoliad;	Yn dilyn y lleoliad:
<u>Pwy ydw i'n addysgu? ECAD5011</u> dyddiad cyflwyno'r aseiniad – 09.12.26 Mae'r modwl hwn yn cyflwyno gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach o ddatblygiad plant a mwy o ffactorau allanol cymhleth sy'n dylanwadu ar lesiant a datblygiad, er enghraifft, herio'r cysyniad o norm. Byddant yn cael gwybodaeth ar ystod o anghenion dysgu ychwanegol y byddant yn dod ar eu traws, a sut i gefnogi'r	<u>Pontio 1- Cwrdd – 13.01.27</u> (ysgol arweiniol rhwydwaith) <u>Cyfnod prawf yn yr ysgol PAP – 14.01.26 – 26.01.27</u> <u>Rhannu – 27.01.27</u> (ysgol arweiniol rhwydwaith) Mae'r ffocws ar Asesu Ffurfiannol yn cynnig cyfle i ddarpar athrawon wneud cysylltiadau rhwng theori ac arfer. Byddant yn datblygu eu dealltwriaeth o'r strategaethau, y dulliau a'r offer y mae ysgolion yn eu defnyddio i gasglu tystiolaeth o	Arwain y Dysgu – dyddiad cyflwyno'r aseiniad 26.02.27 <u>Y Gymraeg mewn arfer proffesiynol</u> <u>ECAD5019</u> dyddiad cyflwyno'r aseiniad 03.03.27 <u>Ymchwilio i'r Dysgu:</u> Beth, sut a pham ydw i'n addysgu? ECAD5014 – dyddiad cyflwyno'r aseiniad 08.04.27 Mae'r modwl 'Beth, sut a pham ydw i'n addysgu' yn rhoi cyfleoedd i

dysgwyr hyn drwy fod yn gynhwysol yn eu hymarfer. <u>Arwain y Dysgu – ECAD5012</u> Mae'r modwl hwn sydd â ffocws ar addysgeg, cwricwlwm ac asesu effeithiol, yn rhoi'r cyfle i ddarpar athrawon ddeall sut i gynllunio, caffael adnoddau, cyflwyno, asesu a gwerthuso profiadau dysgu effeithiol yng Nghyfnod Allweddol 2. Cyflwynir myfyrwyr i ystod eang o bynciau perthnasol cyn mynd ar leoliad, gan gynnwys y chwe MDaPh, Dysgu Sylfaen a dulliau o ymdrin ag aseiniadau. <u>Y Gymraeg mewn Arfer Proffesiynol:</u> Myfyrwyr i gwblhau 17 sesiwn o ddwy awr yr un i adeiladau ar sgiliau Cymraeg BA1, datblygu dulliau addysgu sector penodol, a deall y cyd-destun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg yn y Cwricwlwm i Gymru a Deddf Y Gymraeg mewn Addysg 2025. <u>Diogelu, PREVENT a Dangos y Garden Goch i Hiliaeth</u> Bydd darpar athrawon yn derbyn mewnbwn ar bolisiau diogelu'r brifysgol ac ysgolion, yn ogystal â hyfforddiant 'Dangos y Garden Goch i Hiliaeth' a PREVENT. Mae disgwyl iddynt gwblhau hyfforddiant diogelu yn eu hysgolion PAP er mwyn atgyfnerthu a chyd-destunoli eu dysgu yn y brifysgol.	ddysgu, llywio cynllunio a chefnogi cynnydd dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys archwilio sut y gall adborth, arsylwi a chwestiynu effeithiol gefnogi datblygiad dysgwyr ar draws y cwricwlwm.	ddarpar athrawon BA2 fireinio eu sgiliau ymchwil drwy ddylunio, ymarfer a chyfiawnhau cymhwyso offer ymchwil (h.y. holiaduron a chyfweliadau) yn yr ystafell ddosbarth i gael cipolwg pellach ar agweddau ar addysgu a dysgu (e.e. cwestiynu neu farcio byw). <u>ECDA5013 – Ble ydw i'n addysgu?</u> dyddiad cyflwyno'r aseiniad 05.05.27 Mae'r modwl "<i>Ble ydw i'n addysgu?</i>" wedi'i gynllunio i helpu darpar athrawon BA2 i ddatblygu dealltwriaeth gryfach o'r cymunedau y byddant yn gweithio ynddynt. Bydd y darpar athrawon yn archwilio sut mae ysgolion yng Nghymru yn cefnogi ac yn ymgysylltu â'u cymunedau lleol yn y modwl hwn, drwy edrych ar esiamplau go iawn o arfer da. Yn ogystal, byddant yn ystyried sut mae materion cyfiawnder cymdeithasol, megis cynhwysiant, amrywiaeth ac ecwiti yn llywio bywyd yn yr ysgol, a sut y gall gwahanol gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol ddylanwadu ar amgylchedd y dosbarth. <u>Dyfnhau Arfer: Iechyd a Llesiant ECAD5018</u> – dyddiad cyflwyno'r aseiniad 14.05.27 Bydd y modwl 'Iechyd a Llesiant' yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach o lechyd a Llesiant o fewn fframwaith Cwricwlwm i Gymru a gwybodaeth
---	---	--

		am theori, ymchwil ac arfer da i fyfyrwyr er mwyn eu galluogi i lywio'r dysgu a chyfathrebu'n effeithiol â chydweithwyr yn y maes hwn. <u>Dyfnhau Arfer: Darllen a Llenyddiaeth Plant – ECAD5016</u> dyddiad cyflwyno'r aseiniad 14.05.27 Bydd myfyrwyr yn edrych ar ystod eang o lenyddiaeth plant, yn amrywiol o'r clasuron i lenyddiaeth gyfoes fwy cynhwysol ar y modwl hwn. Byddant yn ystyried nodweddion "llyfr da". Yn ogystal, byddant yn meddwl sut y gallent ddefnyddio llenyddiaeth yn y dosbarth, gan gynnwys barddoniaeth. Yna, bydd y modwl yn edrych ar sut y gall ysgolion feithrin cariad at ddarllen ymhlith plant. Gan edrych ar waith y grŵp Darllen am Bleser, bydd myfyrwyr yn dysgu sut y gallent ddatblygu brwdfrydedd dros ddarllen ymhlith eu disgyblion ac arbrofi gyda rhai o'r syniadau hyn eu hunain.
--	--	---

Fel rhan o'r dull graddedig o ddysgu i addysgu ac amserlen ddysgu 100%, mae'r canlynol yn amlinellu'r hyn sydd i'w ddisgwyl o ddarpar athrawon BA2 yn eu harfer addysgu. Mae'r disgwyliadau hyn wedi'u cynllunio i lywio datblygiad y darpar athrawon a'u helpu i adeiladu hyder wrth iddynt symud drwy'r flwyddyn.

	PAP
BA2	50% - 6-% addysgu dosbarth cyfan erbyn wythnos 4

Yn unol â dull y PDPA at addysgu trawsnewidiol, disgwylir i ddarpar athrawon sy'n ymgymryd â'u Profiad Addysgu Proffesiynol ymgysylltu ag ystod o arferion adfyfyriol. Amlinellir y rhain isod er mwyn llywio a chefnogi eu twf proffesiynol drwy gydol y lleoliad.

Cynorthwyo darpar athrawon BA2 i adfyfyrio ar PAP:

Dogfen	Natur y Ddogfen	Amserlen/ Monitro
Dyddlyfr dysgu Rhaid i'r darpar athro fod â'i ddyddlyfr dysgu ei hun yn barod ar gyfer dechrau'r PAP	Cofnod ffurfiannol dyddiol parhaus o nodiadau adfyfyrio proffesiynol ar brofiadau'r lleoliad a gedwir gan y darpar athro ac a rennir â'r Mentor Dosbarth/Pwnc, yr Uwch Fentor a'r Arweinydd Rhwydwaith fel y bo'n briodol. Mentoriaid i gynnig adborth i ddarpar athrawon (mewn sgwrs a/ neu yn ysgrifenedig yn y dyddlyfr) yn ddyddiol. Gweler dogfen ganllaw'r Dyddlyfr Dysgu am ragor o wybodaeth - Llawlyfrau a Chanllawiau SYLWER: Dylai'r Dyddlyfr Dysgu ffurfiannol fod yn ddienw ac wedi'i ysgrifennu mewn modd proffesiynol.	Yn ddyddiol Dylai'r Dyddlyfr Dysgu fod ar gael at sylw'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn ddyddiol Caiff y defnydd o'r Dyddlyfr Dysgu ei fonitro gan yr Uwch Fentor yn wythnosol
Cyfarfod Adfyfyrio Pythefnosol	I'w gwblhau gan y darpar athro gyda'r Mentor Dosbarth / Pwnc mewn proses gydweithredol . Dylai hyn fod yn seiliedig ar gyfarfod adolygu wythnosol ffurfiol ar yr amserlen i drafod cynnydd a chytuno ar dargedau mesuradwy. Mae hwn yn gyfle i drafod tystiolaeth o'r dyddlyfr dysgu a'r cynlluniau gwersi. Rhaid i'r darpar athro gwblhau templed Adfyfyrio Pythefnosol yn y PDP - a fydd yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth a rennir o gynnydd a thargedau y cytunwyd arnynt. Gellir dod o hyd i ganllawiau cefnogol, yma: Llawlyfrau a Chanllawiau	Adfyfyrio Pythefnosol WC 11.01.27 WC 25.01.27 15.02.27 – camau 4 a 5 yn unig

Diwrnodau Allweddol PAP BA2:

'Ymweliad cynnar'	Bydd Arweinydd y Rhwydwaith neu Diwtor y Brifysgol yn ymweld â phob darpar athro a mentor. Yn ystod yr ymweliad hwn, bydd disgwyliadau ynghylch PAP yn cael eu trafod a bydd unrhyw	04.01.27 - 15.01.27
--------------------------	---	----------------------------

	adnoddau priodol (mentora, llesiant ac ati) yn cael eu rhannu gyda'r darpar athrawon a'r mentoriaid.	
Sicrhau Ansawdd Mentora	Disgwylir i Uwch Fentoriaid arsylwi ar Fentoriaid Dosbarth / Pwnc, gan gynnal sesiwn adborth unwaith fesul PAP. Sylwer bydd y mentoriaid Dosbarth / Pwnc yn dod at ei gilydd er mwyn adolygu'r sesiwn gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir – https://forms.office.com/e/3MrrW1rxTc Yn ogystal, mae'r ffurflen hon yn cofnodi mentora effeithiol gan y PDPA er mwyn cefnogi'r broses o rannu pwrpasol a strategol. https://forms.office.com/e/ZMugGK0CYL	18.01.27 - 22.01.27
Trafodaeth Broffesiynol	Trafodaeth broffesiynol gyda'r Mentor Dosbarth/Uwch Fentor gyda mewnbwn gan y darpar athro gan arwain at yr adroddiad diwedd lleoliad.	01.02.27 - 05.02.27
Adroddiad Canol y Lleoliad	Bydd adroddiad canol lleoliad yn cael ei gwblhau gan Fentor Dosbarth neu'r Uwch Fentor ac yn cynnwys targedau perthnasol. Dylent fod yn SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Perthnasol ac amser-benodol - gweler y canllawiau) ac yn gysylltiedig â'r cam nesaf yn natblygiad y darpar athro. Dylai dynnu ar dystiolaeth o'r dyddlyfr dysgu a'r adfyfrio pythefnosol.	Dyddiad cyflwyno'r Adroddiad 27.01.27
Ymweliadau Adolygu ar y Cyd	Yr Ymweliad Adolygu ar y Cyd sy'n cynnwys y Mentor Dosbarth a naill ai'r Uwch Fentor, Arweinydd Rhwydwaith neu Diwtor y Brifysgol. Dylai'r amserlen gynnwys: • arsylwi gwers neu adborth sesiwn rhwng Mentor Dosbarth a'r darpar athro; • cwrdd â'r darpar athro i drafod PAP gan gynnwys ei ymgysylltiad ag adnoddau adfyfyriol – Dyddlyfr Dysgu ac Adfyfrio Pythefnosol a PAP diweddar. • Trafodaeth gyda'r mentor (gweld a yw popeth yn iawn) gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o adnoddau mentora a sut i gyrchu cymorth pe bai angen. • Cwblhau gwaith papur: ffurflen arsylwi i'w chwblhau gan y Mentor Dosbarth a chadarnhad o'r ymweliad yn cael ei gofnodi ar SharePoint gan yr ail arsylwr.	25.02.27 -05.02.27
	Sylwer y bydd arholwr allanol yn ymweld â detholiad o ddarpar athrawon BA2. Mewn achosion o'r fath, bydd hyn yn cael ei	17.02.27 – 18.02.27

Ymweliadau Arholwyr Allanol	gyfathrebu gyda'r darpar athro, Mentor Dosbarth / Pwnc, yr Uwch Fentor a'r Arweinydd Rhwydwaith cyn yr ymweliad. Yn ogystal, bydd yr ymweliad hwn yn cymryd lle'r Ymweliad Adolygu ar y Cyd.	
Adroddiad Diwedd Lleoliad	Adroddiad Diwedd Lleoliad wedi'i gwblhau gan y Mentor Dosbarth / Uwch Fentor erbyn y dyddiad cau a nodwyd. Sylwch fod yn rhaid ysgrifennu hyn yn yr amser gorffennol gyda chofnod cywir o'r diwrnodau a fynychwyd. <u>Sylwch fod yn rhaid i unrhyw ddarpar athrawon ar Broses Ymyrraeth fod wedi derbyn yr holl ddogfennaeth berthnasol ar eu cyfrif ar Sharepoint cyn gadael y lleoliad.</u>	Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad – 11.02.26 Lleoliad yn dod i ben– 19.02.27
Diwrnodau PAP Ychwanegol (dewisol)	Sylwch fod cyfle i ddarpar athrawon wneud iawn am unrhyw ddiwrnodau PAP a gollwyd ar y pwynt hwn. Dylai unrhyw ddyddiadau sy'n cael eu llunio ar y pwynt hwn gael eu cofnodi ar adran presenoldeb y PAP a'u cynnwys yn gyfansymiau presenoldeb yn yr Adroddiad Diwedd Lleoliad.	04.05.27 – 14.05.27

Mae'r wybodaeth isod yn gosod y disgwyliadau allweddol ar gyfer y Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP ar gyfer darpar athrawon BA2 Mae'n gynnwys trosolwg o'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd adfyfrio pythefnosol, manylion o weithgareddau sicrhau ansawdd (SA) cynlluniedig a'r rhestr ar gyfer adrodd. Mae'r elfennau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi darpar athrawon a mentoriaid i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn esmwyth ac yn bodloni gofynion y rhaglen. Cadwch y wybodaeth hon wrth law a chyfeiriwch ati yn rheolaidd trwy gydol y PAP i'ch helpu i gadw ar y trywydd iawn ac yn barod ar gyfer pob cam.

Trosolwg PAP3:

Ymgysylltu cyn PAP	Profiad Addysgu Proffesiynol
Diwrnod Ymgysylltu â'r Ysgol 22.10.26 Disgwylir i ddarpar athrawon drefnu pedwar diwrnod cyn PAP gyda'u hysgol leoliad: dau yn ystod tymor yr hydref a dau yn ystod tymor y gwanwyn. Dylid gwneud trefniadau yn uniongyrchol rhwng y darpar athro a'r ysgol ar adeg gyfleus i'r ddwy ochr.	PTE3: 01/03/27 – 15/05/27 <i>Sylwer: RHAID cwblhau'r tasgau a nodwyd ar gyfer y 'cyfnod paratoi' (gweler t.10/11) erbyn 20.10.27</i> Gwyliau'r Pasg: 22.03.27-11.04.27 (nodwch fod darpar athrawon yn cael tair wythnos o wyliau)

Gweithgaredd y rhaglen		
Cyn y lleoliad	Yn ystod y lleoliad	Yn dilyn y lleoliad
<u>Ymchwilio i'r Dysgu:</u> ECAD6017 – dyddiad cyflwyno'r aseiniad 03.02.27 Datblygu sgiliau ymchwil weithredol, gan gynnwys moeseg, casglu data ac arsylwi i gysylltu tystiolaeth â gwaith ymarferol (Profiadau Dewisol 18.01.27 – 22.01.27) <u>Cynhadledd ADY a Llesiant</u> <u>05.02.27</u>	<u>Pontio – Addysgu Addasol</u> 12.05.27 –16.06.27 <i>Dyfnhau meddwl darpar athrawon ar sut i addasu addysgu a dysgu i fodloni anghenion amrywiol pob dysgwr yn eu hamgylchedd ysgol. Nod y pontio hwn yw cefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth darpar athrawon o addysgu addasol mewn perthynas â'r cwricwlwm, addysgeg ac asesu. Bydd darpar athrawon yn derbyn dogfen STEER fanwl i lunio cynllun</i>	<u>Cymraeg mewn Arfer Proffesiynol</u> - dyddiad cyflwyno'r aseiniad 14.04.27 <u>Anelu at Ragoriaeth</u> 22.05.26 Yn dathlu siaradwyr ysbrydoledig, partneriaethau cryf a darpar athrawon arloesol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 <u>Adolygiadau SAC</u> 24.05.27-27.05.27

Bydd darpar athrawon yn datblygu eu dealltwriaeth o strategaethau a dulliau cynhwysol sy'n cefnogi cynnydd a llesiant emosiynol dysgwyr. <u>ECAD6014</u> dyddiad cyflwyno'r aseiniad – 17.02.27 Archwilio sut mae ffactorau diwylliannol, ieithyddol ac economaidd-gymdeithasol yn cysylltu â chyfiawnder cymdeithasol, polisi Cymru a'r Cynllun Datblygu Ysgol. <u>Arwain y dysgu – ECAD6015</u> Canolbwyntio ar addysgeg effeithiol, y cwricwlwm ac asesu, mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr athrawon ddeall sut i gynllunio, paratoi adnoddau, addysgu, asesu a gwerthuso profiadau dysgu effeithiol. Cyn lleoliad, cyflwynir ystod eang o bynciau perthnasol i fyfyrwyr, gan gynnwys y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, Dysgu Sylfaen ac agweddau tuag at asesu. <u>Ble ydw i'n addysgu?</u> dyddiad cyflwyno'r aseiniad 10.12.27 Yn archwilio sut mae ffactorau diwylliannol, ieithyddol a chymdeithasol-economaidd yn dylanwadu ar ddysgu, gan gysylltu â chyfiawnder cymdeithasol, polisi yng Nghymru a phroses Cynllun Datblygu'r Ysgol.	<i>gweithredu ar sut i weithredu strategaethau addysgu addasol mewn cyfres wedi'i chynllunio o'u gwersi eu hunain.</i>	
--	---	--

<u>Dyfnhau Arfer</u> – <u>ECAD6019 Mathemateg a Rhifedd</u> – <u>ECAD6021 ADY</u> <u>Cyflwyniad aseiniad 24.03.27</u> Bydd y modiwlau hyn yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i fyfyrwyr-athrawon o'r cynnydd mewn dysgu a amlinellir yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru, ynghyd â'r wybodaeth am ddamcaniaeth, ymchwil ac arfer da i'w galluogi i arwain dysgu'n effeithiol a chydweithio â chydweithwyr ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. <u>Cymraeg mewn Arfer Proffesiynol</u> <u>ECAD6022</u> - Mae darpar athrawon yn cwblhau 18 o sesiynau dwy awr yr un er mwyn gwella sgiliau Cymraeg, datblygu dulliau addysgu sector penodol, a deall y cyd-destun cenedlaethol yn y Cwricwlwm i Gymru a Deddf y Gymraeg mewn Addysg 2025. <u>Pontio 1</u> – Gwella Ysgolion a chynllunio strategol 10.11.25 Er mwyn datblygu dealltwriaeth darpar athrawon o ddiben gwella ysgolion, ystyriwch ffyrdd y mae'r ysgol yn nodi targedau ysgol a nodi sut y mae'r rhain yn berthnasol i'r blaenoriaethau cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. <u>Diogelu, PREVENT a Dangos y Garden Goch i Hiliaeth</u>		
---	--	--

Bydd darpar athrawon yn derbyn mewnbwn ar bolisiau diogelu'r brifysgol ac ysgolion, yn ogystal â hyfforddiant 'Dangos y Garden Goch i Hiliaeth' a PREVENT. Mae disgwyl iddynt gwblhau hyfforddiant diogelu yn eu hysgolion PAP er mwyn atgyfnerthu a chyd-destunoli eu dysgu yn y brifysgol.		
--	--	--

Fel rhan o'r dull graddedig o ddysgu i addysgu ac amserlen ddysgu 100%, mae'r canlynol yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir gan fyfyrwyr-athrawon BA3 yn eu hymarfer addysgu. Mae'r disgwyliadau hyn wedi'u cynllunio i lywio datblygiad darpar athrawon a'u helpu i feithrin hyder wrth iddynt symud ymlaen trwy'r flwyddyn.

	PAP
BA3	75% Addysgu annibynnol parhaus erbyn wythnos 4 (12.04.27)

Cynorthwyo darpar athrawon BA3 i adfyfrio ar PAP:

Yn unol â dull y PDPA at addysgu trawsnewidiol, disgwylir i fyfyrwyr-athrawon ymgymryd â'u Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP) gymryd rhan mewn ystod o arferion adfyfiriol. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod i lywio a chefnogi eu twf proffesiynol trwy gydol y lleoliad.

Dogfen	Natur y Ddogfen	Amserlen/ Monitro
Dyddlyfr dysgu Rhaid i'r darpar athro fod â'i ddyddlyfr dysgu ei hun yn	Cofnod ffurfiannol dyddiol parhaus o nodiadau adfyfrio proffesiynol ar brofiadau'r lleoliad a gedwir gan y darpar athro ac a rennir â'r Mentor Dosbarth/Pwnc, yr Uwch Fentor a'r Arweinydd Rhwydwaith fel y bo'n briodol. Mentoriaid i gynnig adborth i ddarpar athrawon (mewn sgwrs a/ neu yn ysgrifenedig yn y dyddlyfr) yn ddyddiol.	Yn ddyddiol Dylai'r Dyddlyfr Dysgu fod ar gael at sylw'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn ddyddiol

barod ar gyfer dechrau'r PAP	Gweler dogfen ganllaw'r Dyddlyfr Dysgu am ragor o wybodaeth - Llawlyfrau a Chanllawiau SYLWER: Dylai'r Dyddlyfr Dysgu ffurfiannol fod yn ddienw ac wedi'i ysgrifennu mewn modd proffesiynol.	Caiff y defnydd o'r Dyddlyfr Dysgu ei fonitro gan yr Uwch Fentor yn wythnosol
Cyfarfod Adfyfyrio Pythefnosol	I'w gwblhau gan y darpar athro gyda'r Mentor Dosbarth / Pwnc mewn proses gydweithredol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar gyfarfod adolygu wythnosol ffurfiol ar yr amserlen i drafod cynnydd a chytuno ar dargedau mesuradwy. Mae hwn yn gyfle i drafod tystiolaeth o'r dyddlyfr dysgu a chynlluniau gwersi. Rhaid i'r darpar athro gwblhau templed Adfyfyrio Pythefnosol yn y PDP - a fydd yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth a rennir o gynnydd a thargedau y cytunwyd arnynt. Gellir dod o hyd i ganllawiau cefnogol, yma: Llawlyfrau a Chanllawiau	Pythefnosol WC 08.03.27 WC 12.04.27 WC 26.04.27 WC 10.05.27 – camau 4 a 5 yn unig

Dyddiadau PAP BA3 allweddol:

	Bydd pob darpar athro a mentor yn cael ymweliad gan naill ai'r Arweinydd Rhwydwaith neu Diwtor o'r Brifysgol. Yn ystod yr ymweliad hwn, trafodir disgwyliadau o ran PAP a rhennir unrhyw adnoddau priodol (mentora, llesiant ac ati) gyda'r darpar athrawon a'r mentoriaid.	01.03.27 - 12.03.27
Sicrhau Ansawdd Mentora	Disgwylir i Uwch Fentoriaid arsylwi ar Fentoriaid Dosbarth / Pwnc yn cynnal sesiwn adborth <u>unwaith</u> bob PAP. Sylwch y bydd mentoriaid Dosbarth / Pwnc yn dod at ei gilydd i adolygu'r sesiwn ar ôl hynny, gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir – https://forms.office.com/e/3MrrW1rxTc Yn ogystal, mae'r ffurflen hon yn cynnwys mentora effeithiol gan yr PDPA i gefnogi rhannu ymarfer pwrpasol a strategol. https://forms.office.com/e/ZMugGK0CYL Yn ogystal, mae'r ffurflen hon yn cynnwys mentora effeithiol gan yr PDPA i gefnogi rhannu ymarfer pwrpasol a strategol. https://forms.office.com/e/ZMugGK0CYL	16.03.27 - 26.03.27

Trafodaeth Broffesiynol	Trafodaeth broffesiynol gyda'r Mentor Dosbarth/Uwch gyda mewnbwn gan y darpar athro, gan arwain at yr adroddiad canol lleoliad.	15.03.27 - 19.03.27
Adroddiad Canol Lleoliad	Bydd adroddiad canol lleoliad yn cael ei gwblhau gan Fentor Dosbarth neu Uwch Fentor ac yn cynnwys targedau perthnasol. Dylent fod yn CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrdd – gweler y canllawiau) ac yn gysylltiedig â'r cam nesaf yn natblygiad y darpar athro. Dylai dynnu ar dystiolaeth o'r dyddlyfr dysgu a'r adfyfrio bob pythefnos.	Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad 14.04.27
Ymweliadau Adolygu ar y Cyd	Yr Ymweliad Adolygu ar y Cyd sy'n cynnwys y Mentor Dosbarth a naill ai'r Uwch Fentor, Arweinydd Rhwydwaith neu Diwtor y Brifysgol. Dylai'r amserlen gynnwys: • arsylwi ar wers a sesiwn adborth rhwng y Mentor Dosbarth a'r darpar athro; • cyfarfod â'r myfyriwr-athro i drafod PAP gan gynnwys eu hymgysylltiad ag adnoddau adfyfyriol – Dyddlyfr Dysgu ac Adfyfrio Pythefnosol a PAP diweddar. • trafodaeth gyda mentor (gweld a yw popeth yn iawn); sicrhau eu bod yn ymwybodol o adnoddau mentora a sut i gyrchu cymorth pe bai angen. • cwblhau gwaith papur – ffurflen arsylwi i'w chwblhau gan y Mentor Dosbarth a chadarnhad o ymweliad i'w gofnodi ar SharePoint gan yr ail arsylwr. SYLWER – Pan fydd darpar athro yn cael ei ddewis ar gyfer ymweliad gan yr Arholwr Allanol, bydd hyn yn disodli'r Ymweliad Adolygu ar y Cyd ac ni fydd yn ymweliad ychwanegol.	26.04.27 - 14.05.27 Ymweliadau'r Arholwr Allanol – 06/05/27 – 07/05/27
Adroddiad Diwedd Lleoliad	Adroddiad Diwedd Lleoliad wedi'i gwblhau gan y Mentor Dosbarth / Uwch Fentor erbyn y dyddiad cau a nodwyd. Sylwch fod yn rhaid i hyn gael ei ysgrifennu yn yr amser gorffennol gyda chofnod cywir o'r dyddiau a fynychwyd. Sylwch fod yn rhaid i unrhyw ddarpar athrawon ar Gynllun Ymyrraeth fod wedi derbyn yr holl ddogfennaeth berthnasol ar eu cyfrif Sharepoint cyn gadael y lleoliad.	Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad – 12.05.27 Lleoliad yn dod i ben – 14.05.27

Diwrnodau PAP Ychwanegol (dewisol)	Sylwch fod cyfle i ddarpar athrawon wneud iawn am unrhyw ddiwrnodau PAP a gollwyd ar y pwynt hwn. Dylai unrhyw ddyddiadau sy'n cael eu llunio ar y pwynt hwn gael eu cofnodi ar adran presenoldeb y PAP a'u cynnwys yn gyfansymiau presenoldeb yn yr Adroddiad Diwedd Lleoliad.	24.05.27 – 11.06.27
---	---	----------------------------

Mae'r wybodaeth isod yn nodi'r disgwyliadau allweddol ar gyfer y Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP) ar gyfer darpar athrawon TAR. Mae'n gynnwys trosolwg o'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd myfyrio bob pythefnos, manylion gweithgareddau sicrhau ansawdd (SA) wedi'u cynllunio, a'r amserlen ar gyfer adrodd. Mae'r elfennau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi darpar athrawon a mentoriaid i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn esmwyth ac yn bodloni gofynion y rhaglen. Cadwch yr wybodaeth hon wrth law a chyfeiriwch ati yn rheolaidd trwy gydol y PAP i'ch helpu i gadw ar y trywydd iawn ac yn barod ar gyfer pob cam.

Trosolwg PAP1:

Cyfnod Paratoi - Uwchradd (pob dyddiad mewn ysgolion PAP oni nodir yn wahanol)	Cyfnod Paratoi - Cynradd (pob dyddiad mewn ysgolion PAP oni nodir yn wahanol)	Addysgu
23.09.26 – Ysgol arweiniol 29.09.26 01.10.26 06.10.26 08.10.26 13.10.26 15.10.26 20.10.26 * 22.10.26 <i>Sylwer: RHAIID cwblhau'r tasgau a nodwyd ar gyfer y 'cyfnod paratoi' (gweler t.10/11) erbyn 20.10.26</i>	23.09.26 – Ysgol arweiniol 29.09.26 02.10.26 06.10.26 09.10.26 13.10.26 16.10.26 20.10.26 * 23.10.26 <i>Sylwer: RHAIID cwblhau'r tasgau a nodwyd ar gyfer y 'cyfnod paratoi' (gweler t.10/11) erbyn 20.10.26</i>	20.10.26 – 15.01.27

Gweithgaredd y rhaglen		
Cyn y lleoliad	Yn ystod y lleoliad	Yn dilyn y lleoliad
<u>Arwain y Dysgu ECAD6051</u> Mae'r modwl hwn sydd â ffocws ar addysgeg, cwricwlwm ac asesu effeithiol, yn rhoi'r cyfle i ddarpar athrawon ddeall sut i gynllunio, caffael adnoddau, cyflwyno, asesu a gwerthuso profiadau dysgu effeithiol ar gyfer Dysgu Sylfaen. Bydd hyn wedi'i gwmpasu mewn tua 72 awr o sesiynau a addysgir. Dim ond yn haniaethol yn y Brifysgol y gellir gwneud cynllunio, felly anogir darpar athrawon i ddarganfod cymaint â phosibl am eu dosbarthiadau yn ystod eu hymweliadau cynnar i ysgolion. Yna, byddant yn gweithio gyda mentoriaid yn yr ysgol i ddechrau cymhwyso'r syniadau hyn i'r ystafell ddosbarth yn ystod y cyfnod cynnar yn eu lleoliadau. Cyn dechrau yn y lleoliad, byddant yn rhoi'r syniadau hyn ar waith i gynllunio a chyflwyno sesiwn 'micro addysgu'. Cyflwynir myfyrwyr cynradd i ystod eang o bynciau perthnasol cyn mynd ar leoliad, gan gynnwys y chwe MDaPh, Dysgu Sylfaen a dulliau o ymdrin ag asesiadau. Mae myfyrwyr uwchradd yn gweithio mewn grwpiau pwnc i gymhwyso syniadau i'w cyd-destunau penodol ac ar draws MDaPh i archwilio tebygrwyddau a gwahaniaethau mewn dulliau.	<u>Pontio 1 –</u> <u>Pontio 1 – Gwella Ysgolion a chynllunio strategol</u> Cwrdd– 12.11.25 (ysgol arweiniol y rhwydwaith) Cyfnod prawf yn yr ysgol PAP – 13.11.25 – 25.11.25 Rhannu – 26.11.25 (ysgol arweiniol y rhwydwaith) Datblygu dealltwriaeth darpar athrawon o ddiben gwella ysgolion, ystyried ffyrdd y mae'r ysgol yn nodi targedau ysgol a nodi sut y mae'r rhain yn berthnasol i'r blaenoriaethau cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Bydd myfyrwyr TAR yn nodi un maes blaenoriaeth / targed i'w archwilio ac ystyried sut y gallent gyfrannu tuag at fodloni'r flaenoriaeth hon drwy eu haddysgeg eu hunain. Bydd darpar athrawon yn cwblhau dogfen STEER fanwl i gefnogi a chofnodi eu meddwl a'u datblygiad. Cwrdd – 12.11.25c (ysgol arweiniol rhwydwaith) Cyfnod prawf mewn ysgol PAP – 13.11.25 – 25.11.25 Rhannu – 26.11.25c (ysgol arweiniol rhwydwaith)	<u>Arwain y Dysgu – ECAD6051</u> Daw myfyrwyr at ei gilydd cyn mynd ar leoliad i rannu eu profiadau, a dyfnhau eu dealltwriaeth cyn symud i PAP2. Bydd gan ddarpar athrawon ar y llwybr cynradd gyfle i baratoi ar gyfer newid cyfnod ar gyfer eu hail leoliad. <u>Cyfnod Cyfnod – 03.02.27 – 04.02.27</u> Darpar athrawon cynradd ac uwchradd yn profi'r cyfnod arall, gan ganolbwyntio ar bontio disgyblion. <u>Cynhadledd ADY a Llesiant 05.02.27</u> Bydd darpar athrawon yn datblygu eu dealltwriaeth o strategaethau a dulliau cynhwysol sy'n cefnogi cynnydd a llesiant emosiynol dysgwyr. <u>Ble ydw i'n addysgu? – ECAD7005</u> Archwilio sut mae ffactorau diwylliannol, ieithyddol ac economaidd gymdeithasol yn dylanwadu dysgu, cysylltu â chyfiawnder cymdeithasol, polisi Cymru a'r broses Cynllun Datblygu Ysgol. <u>Ymchwilio i'r dysgu – ECAD7006</u> Datblygu sgiliau ymchwil gweithredu, gan gynnwys moeseg,

<u>Ble ydw i'n addysgu? ECAD6050</u> Archwiliad o'r dysgwr a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ei gynnydd, gan dynnu ar ddamcaniaethau dysgu allweddol. Mae'r modwl yn pwysleisio pwysigrwydd adfyfrio ymarferwr i lywio ac addasu dulliau addysgu, gan alluogi cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth. (12.10.26) <u>Diogelu, PREVENT a Dangos y Garden Goch i Hiliaeth</u> Bydd darpar athrawon yn derbyn mewnbwn ar bolisiau diogelu'r brifysgol ac ysgolion, yn ogystal â hyfforddiant 'Dangos y Garden Goch i Hiliaeth' a PREVENT. Mae disgwyl iddynt gwblhau hyfforddiant diogelu yn eu hysgolion PAP er mwyn atgyfnerthu a chyd-destunoli eu dysgu yn y brifysgol. <u>Y Gymraeg mewn Arfer Proffesiynol: ECAD6052</u> Bydd darpar athrawon yn cael sesiynau 5, 3 awr a fydd yn rhoi datblygiad sgiliau iaith eu hunain iddynt - sy'n briodol i'w gallu iaith bresennol, a hefyd cyflwyniad i fethodolegau addysgu iaith yn eu sector priodol.	<u>Pwy ydw i'n addysgu? ECAD6050</u> dyddiad cyflwyno'r aseiniad 02.11.26	casglu data, a dadansoddi i gysylltu tystiolaeth ag ymarfer. <u>Pontio – Addysgu Addasol</u> 12.05.27 –16.06.27 Dyfnhau meddwl darpar athrawon ar sut i addasu addysgu a dysgu i fodloni anghenion amrywiol pob dysgwr yn eu hamgylchedd ysgol. Nod y pontio hwn yw cefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth darpar athrawon o addysgu addasol mewn perthynas â'r cwricwlwm, addysgeg ac asesu. Bydd darpar athrawon yn derbyn dogfen STEER fanwl i lunio cynllun gweithredu ar sut i weithredu strategaethau addysgu addasol mewn cyfres wedi'i chynllunio o'u gwersi eu hunain. <u>Y Gymraeg mewn Arfer Proffesiynol: ECAD6052</u> Saith sesiwn tair awr arall, sy'n cwmpasu'r cyd-destun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg o fewn y Cwricwlwm i Gymru a Deddf y Gymraeg mewn Addysg 2025. <u>Dewisiadau eraill (Wythnos yn dechrau 26.01.26)</u> Cyfle i ddarpar athrawon archwilio addysg mewn lleoliadau nad ydynt yn draddodiadol, gan ehangu eu safbwyntiau a dyfnhau eu dealltwriaeth o amgylcheddau dysgu amrywiol. <u>Profiadau Dewisol 08.03.27 – 10.03.27</u> Mae darpar athrawon yn dewis maes o ddiddordeb proffesiynol o ysgol bartner ac yn datblygu eu
--	---	---

		dealltwriaeth trwy ymgysylltu â ffocws ag arbenigedd ac arfer yn yr ysgol.
--	--	--

Fel rhan o'r dull graddedig o ddysgu addysgu ac amserlen ddysgu 100%, mae'r canlynol yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir gan ddarpar athrawon TAR yn eu hymarfer addysgu. Mae'r disgwyliadau hyn wedi'u cynllunio i lywio datblygiad darpar athrawon a'u helpu i feithrin hyder wrth i chi symud ymlaen trwy'r flwyddyn.

	Wythnosau 2-5	Wythnos 6 ymlaen:
TAR Cynradd	30% - 50%: Paratoi'r addysgu ar gyfer y dosbarth cyfan	50% - 60%: Paratoi'r addysgu ar gyfer y dosbarth cyfan
	Disgwylir iddynt fod yn gyfrifol am sesiynau llawn (boreau neu brynhawniau) ynghyd â pharatoi ar gyfer diwrnodau addysgu llawn wrth iddynt fagu profiad.	
TAR Uwchradd	30% - 50%: Paratoi'r addysgu ar gyfer y dosbarth cyfan	50% - 60%: Paratoi'r addysgu ar gyfer y dosbarth cyfan

Cefnogi adfyfrio darpar athrawon TAR ar PAP1:

Dogfen	Natur y Ddogfen	Amserlen/ Monitro
Dyddlyfr dysgu Rhaid i'r darpar athro fod â'i ddyddlyfr dysgu ei hun yn barod ar gyfer dechrau'r PAP	Cofnod ffurfiannol dyddiol parhaus o nodiadau adfyfrio proffesiynol ar brofiadau'r lleoliad a gedwir gan y darpar athro ac a rennir â'r Mentor Dosbarth/Pwnc, yr Uwch Fentor a'r Arweinydd Rhwydwaith fel y bo'n briodol. Mentoriaid i gynnig adborth i ddarpar athrawon (mewn sgwrs a/ neu yn ysgrifenedig yn y dyddlyfr) yn ddyddiol. Gweler dogfen ganllaw'r Dyddlyfr Dysgu am ragor o wybodaeth - Llawlyfrau a Chanllawiau	Yn ddyddiol Dylai'r Dyddlyfr Dysgu fod ar gael at sylw'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn ddyddiol Caiff y defnydd o'r Dyddlyfr Dysgu ei

	SYLWER: Dylai'r Dyddlyfr Dysgu ffurfiannol fod yn ddienw ac wedi'i ysgrifennu mewn modd proffesiynol.	fonitro gan yr Uwch Fentor yn wythnosol
Cyfarfod Adfyfrio Pythefnosol	I'w gwblhau gan y darpar athro gyda'r Mentor Dosbarth / Pwnc mewn proses gydweithredol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar gyfarfod adolygu wythnosol ffurfiol ar yr amserlen i drafod cynnydd a chytuno ar dargedau mesuradwy. Mae hwn yn gyfle i drafod tystiolaeth o'r dyddlyfr dysgu a chynlluniau gwersi. Rhaid i'r darpar athro gwblhau templed Adfyfrio Pythefnosol yn y PDP - a fydd yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth a rennir o gynnydd a thargedau y cytunwyd arnynt. Gellir dod o hyd i ganllawiau cefnogol, yma: Llawlyfrau a Chanllawiau	Pythefnosol WC 19.10.26 WC 02.11.26 WC 16.11.26 WC 30.11.26 WC 14.12.26 WC 11.01.27 – Camau 4 a 5 yn unig

Dyddiadau PAP TAR Allweddol:

'Ymweliad Cynnar'	Bydd pob darpar athro a mentor yn cael ymweliad gan naill ai'r Arweinydd Rhwydwaith neu'r Tiwtor Prifysgol. Yn ystod yr ymweliad hwn, trafodir disgwyliadau o ran PAP a rhennir unrhyw adnoddau priodol (mentora, llesiant ac ati) gyda'r darpar athrawon a'r mentoriaid.	02.11.26 – 06.11.26
Sicrhau Ansawdd Mentora	Disgwylir i Uwch Fentoriaid arsylwi ar Fentoriaid Dosbarth / Pwnc yn cynnal sesiwn adborth <u>unwaith</u> bob PAP. Sylwch y bydd mentoriaid Dosbarth / Pwnc yn dod at ei gilydd wedyn i adolygu'r sesiwn gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir – ffurflen yma Yn ogystal, mae'r ffurflen hon yn cofnodi mentora effeithiol o'r PDPA i gefnogi'r broses o rannu arfer pwrpasol a strategol. https://forms.office.com/e/ZMugGK0CYL	02.11.26 – 13.11.26
Trafodaeth Broffesiynol	Trafodaeth broffesiynol rhwng y Mentor Dosbarth / Uwch Fentor gyda mewnbwn gan y darpar athro, fydd yn arwain at yr adroddiad canol lleoliad.	16.11.26 – 20.11.26
Adroddiad Canol Lleoliad	Bydd adroddiad canol lleoliad yn cael ei gwblhau gan Fentor Dosbarth neu Uwch Fentor ac yn cynnwys targedau perthnasol. Dylent fod yn CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrdd – gweler y canllawiau) ac yn gysylltiedig â'r cam nesaf yn natblygiad y darpar athro. Dylai dynnu ar dystiolaeth o'r dyddlyfr dysgu a'r adfyfrio bob pythefnos.	Dyddiad cyflwyno'r adroddiad 25.11.26

Ymweliadau Adolygu ar y Cyd	Yr Ymweliad Adolygu ar y Cyd yn cynnwys y mentor dosbarth / pwnc a naill ai'r Uwch Fentor, yr Arweinydd Rhwydwaith neu'r tiwtor Prifysgol. Dylai'r amserlen gynnwys: • arsylwi ar wers a sesiwn adborth rhwng y mentor dosbarth / pwnc a'r darpar athro; • cwrdd â'r darpar athro i drafod PAP yn cynnwys eu hymwneud ag adnoddau adfyfyriol – Dyddlyfr Dysgu a'r Adfyfyrio Pythefnosol. • trafodaeth gyda mentor (gweld a yw popeth yn iawn); sicrhau eu bod yn ymwybodol o adnoddau mentora a sut i gyrchu cymorth pe bai angen; • cwblhau gwaith papur: ffurflen arsylwi i'w chwblhau gan y mentor dosbarth / pwnc gyda'r ail arsylwr yn cofnodi cadarnhad o'r ymweliad ar SharePoint.	30.11.26 – 11.12.26
Adroddiad Diwedd Lleoliad	Adroddiad Diwedd Lleoliad a gwblheir gan y Mentor Dosbarth/Pwnc / Uwch Fentor erbyn y dyddiad cau a nodwyd. Sylwch y dylid ysgrifennu hwn yn yr amser gorffennol gyda chofnod cywir o'r diwrnodau a fynychwyd. <u>Sylwch ei bod yn rhaid i unrhyw ddarpar athrawon ar Broses Ymyrraeth fod wedi derbyn yr holl ddogfennaeth berthnasol yn eu cyfrif Sharepoint, cyn gadael y lleoliad.</u>	Dyddiad cyflwyno'r adroddiad -13.01.27 Lleoliad yn dod i ben 15.01.27

Mae'r wybodaeth isod yn nodi'r disgwyliadau allweddol ar gyfer y Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP) ar gyfer darpar athrawon TAR. Mae'n cynnwys trosolwg o'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd adfyfrio bob pythefnos, manylion gweithgareddau sicrhau ansawdd (SA) wedi'u cynllunio, a'r amserlen ar gyfer adrodd. Mae'r elfennau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi darpar athrawon a mentoriaid i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn llyfn ac yn bodloni gofynion y rhaglen. Cadwch yr wybodaeth hon wrth law a chyfeiriwch ati yn rheolaidd trwy gydol y PAP i'ch helpu i gadw ar y trywydd iawn ac yn barod ar gyfer pob cam.

Dyddiadau Allweddol PAP2 TAR:

Cyfnod Paratoi – Uwchradd (pob dyddiad mewn ysgolion PAP oni nodir yn wahanol)	Cyfnod Paratoi – Cynradd (pob dyddiad mewn ysgolion PAP oni nodir yn wahanol)	Addysgu
15.02.27	16.02.27	05.04.27 – 06.07.27
22.02.27	23.02.26	Gwyliau Pasg – 22.03.27 – 04.04.27
01.03.27	02.03.26	Gŵyl y Banc – 03.05.27
15.03.27	16.03.27	Diwrnod Ysgrifennu – 04.05.27
<i>Sylwer: RHAID cwblhau'r tasgau a nodwyd ar gyfer y 'cyfnod paratoi' (gweler t.10/11) erbyn 05.04.27</i>	<i>Sylwer: RHAID cwblhau'r tasgau a nodwyd ar gyfer y 'cyfnod paratoi' (gweler t.10/11) erbyn 05.04.27</i>	Hanner tymor yr Haf – 31.05.27 – 04.06.27

Gweithgaredd y rhaglen		
Cyn ylleoliad:	Yn ystod y lleoliad;	Yn dilyn y lleoliad:
Pontio 1 – <u>Gwella Ysgolion a chynllunio strategol</u> Cwrdd– 18.11.26 (ysgol arweiniol y rhwydwaith) Cyfnod prawf yn yr ysgol PAP – 19.11.26 – 08.12.26 Rhannu – 13.12.26 (ysgol arweiniol y rhwydwaith)	<u>Pontio – Addysgu Addasol</u> 12.05.27 – 16.06.27 <i>Dyfnhau meddwl darpar athrawon ar sut i addasu addysgu a dysgu i fodloni anghenion amrywiol pob dysgwr yn eu hamgylchedd ysgol. Nod y pontio hwn yw cefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth darpar athrawon o addysgu addasol</i>	<u>Diwrnod diwedd y rhaglen (07.07.27)</u> Cynnig y cyfle i gwrdd â chydweithwyr CGA i drafod y flwyddyn sefydlu a chysylltu â phartneriaid rhanbarthol.

Datblygu dealltwriaeth darpar athrawon o ddiben gwella ysgolion, ystyried ffyrdd y mae'r ysgol yn nodi targedau ysgol a nodi sut y mae'r rhain yn berthnasol i'r blaenoriaethau cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Bydd myfyrwyr TAR yn nodi un maes blaenoriaeth / targed i'w archwilio ac ystyried sut y gallent gyfrannu tuag at fodloni'r flaenoriaeth hon drwy eu haddysgeg eu hunain. Bydd darpar athrawon yn cwblhau dogfen STEER fanwl i gefnogi a chofnodi eu meddwl a'u datblygiad. <u>Arwain y Dysgu – ECAD6051</u> Mae'r modwl hwn sydd â ffocws ar addysgeg, cwricwlwm ac asesu effeithiol, yn rhoi'r cyfle i ddarpar athrawon ddeall sut i gynllunio, caffael adnoddau, cyflwyno, asesu a gwerthuso profiadau dysgu effeithiol ar gyfer Dysgu Sylfaen. Cyflwynir myfyrwyr i'r chwe MDaPh, Dysgu Sylfaen a dulliau o ymdrin ag aseiniadau cyn mynd ar leoliad. Byddant yn cael cyfle i archwilio cyd-destun cyfnod newydd yn dilyn PAP1, yn ogystal â datblygu a mireinio eu syniadau ynghylch y cwricwlwm ac asesu. Mae myfyrwyr uwchradd yn gweithio mewn grwpiau pwnc i gymhwyso syniadau i'w cyd-destunau penodol ac ar draws MDaPh i archwilio tebygrwyddau a	<i>mewn perthynas â'r cwricwlwm, addysgeg ac asesu.</i> <i>Bydd darpar athrawon yn derbyn dogfen STEER fanwl i lunio cynllun gweithredu ar sut i weithredu strategaethau addysgu addasol mewn cyfres wedi'i chynllunio o'u gwersi eu hunain.</i> <u>Anelu at Ragoriaeth 28.05.27</u> Dathliad o siaradwyr ysbrydoledig, partneriaethau cryf, a darpar athrawon arloesol, gan gwmpasu pynciau o Ddysgu Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4, ac o bolisi addysgol i addysgeg yr ystafell ddosbarth <u>Ffenestr Adolygu SAC: 14.06.27 - 25.06.27</u> <u>Ymchwilio'r dysgu – dyddiad cyflwyno'r aseiniad 11.05.27</u> <u>Y Gymraeg mewn Arfer Proffesiynol</u> Dyddiad cyflwyno'r aseiniad 18.05.27	
--	---	--

gwahaniaethau mewn dulliau. Cyn PAP2, byddant yn cael cyfle i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'u haddysgeg pwnc penodol, gan gynnwys mewn perthynas â manylebau arholiadau. Bydd rhai darpar athrawon yn nodi ail faes pwnc yr hoffent archwilio fel rhan o PAP2. <u>Cyfnewid Cyfnod – 03.02.27 – 04.02.27</u> Mae darpar athrawon cynradd ac uwchradd yn profi'r cam arall, gan ganolbwyntio ar bontio disgyblion. <u>Profiadau dewisol 08-10.03.27</u> Cysylltu damcaniaeth i arfer wrth <i>Ymchwilio'r Dysgu</i> drwy astudiaeth achos ar raddfa fach ar ddiddordeb proffesiynol. <u>Dewisiadau eraill 15.02.27</u> Cyfle i ddarpar athrawon archwilio addysg mewn lleoliadau nad ydynt yn draddodiadol, gan ehangu eu safbwyntiau a dyfnhau eu dealltwriaeth o amgylcheddau dysgu amrywiol. <u>Ble ydw i'n addysgu? – ECAD7005</u> Archwilio sut mae ffactorau diwylliannol, ieithyddol ac economaidd cymdeithasol, yn cysylltu â chyfiawnder cymdeithasol, Polisi'r Gymraeg a'r broses Cynllun Datblygu Ysgol. <u>Ymchwilio i'r dysgu – ECAD7006</u>		
--	--	--

Datblygu sgiliau ymchwil gweithredol, gan gynnwys moeseg, casglu data a dadansoddi i gysylltu tystiolaeth ag arfer <u>Cynhadledd ADY a Llesiant 05.02.27</u> Siaradwyr arbenigol yn rhannu mewnweliadau, ymchwil a strategaethau i wella darpariaeth a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol. <u>Y Gymraeg mewn Arfer Proffesiynol:</u> Cyn PAP1 bydd darpar athrawon yn cwblhau pum sesiwn tair awr ar gyfer datblygu sgiliau iaith a chyflwyniad i fethodolegau addysgu. Cyn PAP2, mae saith sesiwn tair awr ychwanegol yn cwmpasu'r cyd-destun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg yn y Cwricwlwm i Gymru a Deddf y Gymraeg mewn Addysg 2025.		
---	--	--

Fel rhan o'r dull graddedig o ddysgu addysgu ac amserlen ddysgu 100%, mae'r canlynol yn amlinellu'r hyn a ddisgwyllir gan ddarpar athrawon TAR yn eu harfer addysgu. Mae'r disgwyliadau hyn wedi'u cynllunio i lywio datblygiad darpar athrawon a'u helpu i feithrin hyder wrth iddynt symud ymlaen trwy'r flwyddyn.

	PAP 2
TAR Cynradd	75% llwyth addysgu erbyn wythnos 4 (wythnos yn dechrau 26.04.27)
TAR Uwchradd	

Cefnogi darpar athrawon TAR i adfyfyrio ar PAP2

Dogfen	Natur y Ddogfen	Amserlen/ Monitro
Dyddlyfr dysgu Rhaid i'r darpar athro fod â'i ddyddlyfr dysgu ei hun yn barod ar gyfer dechrau'r PAP	Cofnod ffurfiannol dyddiol parhaus o nodiadau adfyfyrio proffesiynol ar brofiadau'r lleoliad a gedwir gan y darpar athro ac a rennir â'r Mentor Dosbarth/Pwnc, yr Uwch Fentor a'r Arweinydd Rhwydwaith fel y bo'n briodol. Mentoriaid i gynnig adborth i ddarpar athrawon (mewn sgwrs a/ neu yn ysgrifenedig yn y dyddlyfr) yn ddyddiol. Gweler dogfen ganllaw'r Dyddlyfr Dysgu am ragor o wybodaeth - Llawlyfrau a Chanllawiau SYLWER: Dylai'r Dyddlyfr Dysgu ffurfiannol fod yn ddienw ac wedi'i ysgrifennu mewn modd proffesiynol.	Yn ddyddiol Dylai'r Dyddlyfr Dysgu fod ar gael at sylw'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn ddyddiol Caiff y defnydd o'r Dyddlyfr Dysgu ei fonitro gan yr Uwch Fentor yn wythnosol
Cyfarfod Adfyfyrio Pythefnosol	I'w gwblhau gan y darpar athro gyda'r Mentor Dosbarth / Pwnc mewn proses gydweithredol . Dylai hyn fod yn seiliedig ar gyfarfod adolygu wythnosol ffurfiol ar yr amserlen i drafod cynnydd a chytuno ar dargedau mesuradwy. Mae hwn yn gyfle i drafod tystiolaeth o'r dyddlyfr dysgu a chynlluniau gwersi. Rhaid i'r darpar athro gwblhau templed Adfyfyrio Pythefnosol yn y PDP - a fydd yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth a rennir o gynnydd a thargedau y cytunwyd arnynt. Gellir dod o hyd i ganllawiau cefnogol, yma: Llawlyfrau a Chanllawiau	Pythefnosol WC 12.04.27 WC 26.04.27 WC 10.05.27 WC 24.05.27 WC 14.06.27 WC 29.06.26 – camau 4 a 5 yn unig

Dyddiadau Allweddol PAP2:

'Ymweliad Cynnar'	Bydd pob darpar athro a mentor yn cael ymweliad gan naill ai'r Arweinydd Rhwydwaith neu'r Tiwtor Prifysgol. Yn ystod yr ymweliad hwn, trafodir disgwyliadau o ran PAP a rhennir unrhyw adnoddau priodol (mentora, llesiant ac ati) gyda'r darpar athrawon a'r mentoriaid.	05.04.27 – 16.04.27
--------------------------	---	----------------------------

Sicrhau Ansawdd Mentora	Disgwylir i Uwch Fentoriaid arsylwi ar Fentoriaid Dosbarth / Pwnc yn cynnal sesiwn adborth <u>unwaith</u> bob PAP. Sylwch y bydd mentoriaid Dosbarth / Pwnc yn dod at ei gilydd wedyn i adolygu'r sesiwn gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir – ffurflen yma Yn ogystal, mae'r ffurflen hon yn cofnodi mentora effeithiol o'r PDPA i gefnogi'r broses o rannu arfer pwrpasol a strategol. https://forms.office.com/e/ZMugGK0CYL	12.04.27 – 23.04.27
Trafodaeth Broffesiynol	Trafodaeth broffesiynol rhwng y Mentor Dosbarth / Uwch Fentor gyda mewnbwn gan y darpar athro, fydd yn arwain at yr adroddiad canol lleoliad.	05.05.27 – 01.05.27
Adroddiad Canol Lleoliad	Bydd adroddiad canol lleoliad yn cael ei gwblhau gan Fentor Dosbarth neu Uwch Fentor ac yn cynnwys targedau perthnasol. Dylent fod yn SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Perthnasol ac amser penodol – gweler y canllawiau) ac yn gysylltiedig â'r cam nesaf yn natblygiad y darpar athro. Dylai dynnu ar dystiolaeth o'r dyddlyfr dysgu a'r adfyfrio bob pythefnos.	Dyddiad cyflwyno'r Adroddiad 19.05.27
Ymweliadau Adolygu ar y Cyd / Ymweliadau'r Arholwr Allanol	Yr Ymweliad Adolygu ar y Cyd yn cynnwys y mentor dosbarth / pwnc a naill ai'r Uwch Fentor, yr Arweinydd Rhwydwaith neu'r tiwtor Prifysgol. Dylai'r amserlen gynnwys: • arsylwi ar wers a sesiwn adborth rhwng y mentor dosbarth / pwnc a'r darpar athro; • cwrdd â'r darpar athro i drafod PAP yn cynnwys eu hymwneud ag adnoddau adfyfyriol – Dyddlyfr Dysgu a'r Adfyfrio Pythefnosol. • trafodaeth gyda mentor (gweld a yw popeth yn iawn); sicrhau eu bod yn ymwybodol o adnoddau mentora a sut i gyrchu cymorth pe bai angen; • cwblhau gwaith papur: ffurflen arsylwi i'w chwblhau gan y mentor dosbarth / pwnc gyda'r ail arsylwr yn cofnodi cadarnhad o'r ymweliad ar SharePoint. SYLWER - Pan fydd darpar athro yn cael ei ddewis i ymweld ag ef gan Arholwr Allanol, bydd hyn yn disodli'r Ymweliad Ymholi ar y Cyd ac ni fydd yn ychwanegol.	30.04.27 – 14.05.27 *Ymweliadau'r Arholwr Allanol – 13/05/27 – 14/05/27

Dyddiad Cyflwyno'r Adroddiad Crynodol	Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, gofynnir i bob mentor gyflwyno dyfarniadau crynodol yn erbyn pob safon i gadarnhau bod darpar athrawon yn bodloni'r trothwy gofynnol. Mae cyflwyno'r dyfarniadau hyn yn amserol yn hanfodol er mwyn i fyfyrwyr-athrawon symud ymlaen i'r bwrdd arholi. Bydd yr adroddiad ysgrifenedig llawn, gan gynnwys naratif, yn cael ei gwblhau ar 26.06.26.	Dyddiad cyflwyno'r Adroddiad -16.06.26
Adroddiad Diwedd Lleoliad	Adroddiad Diwedd Lleoliad a gwblheir gan y Mentor Dosbarth/Pwnc / Uwch Fentor, a'i rannu gyda'r darpar athro, a'i lanlwytho i ffolder y darpar athro ar SharePoint PDPA erbyn y dyddiad cau a bennwyd. Sylwch y dylid ysgrifennu hwn yn yr amser gorffennol gyda chofnod cywir o'r diwrnodau a fynychwyd.	Dyddiad cyflwyno'r Adroddiad - 30.06.27 Lleoliad yn dod i ben 06.07.27
Diwrnodau PAP ychwanegol (dewisol)	Sylwch fod cyfle i ddarpar athrawon ar y pwynt hwn wneud iawn am unrhyw ddiwrnodau PAP a gollwyd. Bydd hyn yn berthnasol i ddarpar athrawon nad ydynt wedi cwblhau 120 diwrnod o brofiad yn yr ysgol. Sylwch efallai na fydd darpar athrawon sydd â nifer sylweddol o ddiwrnodau i'w cwblhau tuag at y 120 gofynnol yn gallu graddio yn nhymor yr haf 2026. Dylid cofnodi unrhyw ddyddiadau ar y pwynt hwn ar adran presenoldeb y PAP.	08.07.27 – 20.07.27

Mae'n **orfodol** bod darpar athrawon yn cwblhau 120 diwrnod o weithgarwch yn gysylltiedig ag ysgol. Mae hyn yn cynnwys:

- Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP);
- Pontio;
- Profiadau dewisol;
- Cyfnewid Cyfnod;

Os na fydd darpar athro'n cwblhau 120 diwrnod o weithgaredd perthnasol mewn ysgol, rhaid gwneud amser ychwanegol cyn gynted â phosibl. Mae angen cytuno ar hyn gyda'ch Mentor Dosbarth/Pwnc, Uwch Fentor, a Arweinydd Rhwydwaith. Sylwch nad yw diwrnodau i ffwrdd o'r ysgol ar gyfer cyfweiliadau swydd yn cyfrif fel absenoldeb, er bod unrhyw amser ychwanegol a dreulir yn teithio yn cyfrif.

Cofnod Presenoldeb Dyddiol

Cyfrifoldeb y darpar athrawon yw cadw cofnodion presenoldeb manwl a chywir yn eu Portffolio Dysgu Proffesiynol o dan 'presenoldeb'. Nodwch os gwelwch yn dda y dylai'r Uwch Fentor sicrhau fod y cofnod yn fanwl gywir ar bob pwynt adrodd.

Y weithdrefn mewn achos o absenoldeb

Os na all darpar athro fynychu ysgol yn ystod cyfnod PAP, dylid dilyn y broses isod:

Yn achos absenoldebau annisgwyl:

1. Dilynwch y gweithdrefnau i roi gwybod am absenoldeb o'r ysgol a sicrhau bod eich

Mentor Dosbarth/Pwnc, Uwch Fentor ac Arweinydd Rhwydwaith yn ymwybodol o'ch absenoldeb.

2. Sicrhewch fod eich Cofnod Presenoldeb yn dangos y diwrnodau yr oeddech yn absennol.

Ceisiadau am ganiatâd i fod yn absennol

Yn achos caniatâd am absenoldeb a gynlluniwyd, dilynwch y prosesau a ddangosir isod:

1. E-bostiwch eich Uwch Fentor i roi gwybod am y dyddiadau y byddwch i ffwrdd a gofyn am ganiatâd i fod yn absennol o'r ysgol. Os gwrthodir hyn, mae presenoldeb yn ofynnol mewn ysgol PAP ar ddyddiadau'r cais 'caniatâd i fod yn absennol'.
2. Os cymeradwyir hyn, anfonwch y gadwyn e-bost ymlaen at y Rheolwr Rhaglen perthnasol i gael cymeradwyaeth y Brifysgol. Os gwrthodir hyn, mae presenoldeb yn ofynnol mewn ysgol PAP ar ddyddiadau'r cais 'caniatâd i fod yn absennol'.
3. Os cymeradwyir hyn gan y Rheolwr Rhaglen, gwnewch yn siŵr fod eich Arweinydd Rhwydwaith a'ch Tiwtoriaid Personol yn ymwybodol os gwelwch yn dda.

Addysgeg (Mireinio'r Addysgu):

Ad d1	Addysgeg	Rheoli'r Amgylchedd Dysgu	Mae'r athro'n deall pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y gwaith o hyrwyddo arferion ac ymddygiadau dysgu cadarnhaol sy'n cyd-fynd â'r pedwar diben ac y mae dysgwyr yn eu deall yn y cyd-destun hwnnw. Mae felly'n mynd ati i'w ymsefydlu a'i reoli'n effeithiol ac yn barhaus.
Ad d2	Addysgeg	Gwahaniaethu	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am, ynghyd â dealltwriaeth a phrofiad o, ddisgwyliadau uchel ac arferion effeithiol i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u gwahanol anghenion.
Ad d3	Addysgeg	ASESU	Deall a chyfleu ystod o ddibenion ac arferion ar gyfer asesu

Addysgeg (Hyrwyddo Dysgu):

Ad d6	Addysgeg	Pedwar diben i ddysgwyr	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Yn ogystal, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n gyrru profiadau dysgwyr.
Ad d8	Addysgeg	Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am addysgeg a disgyblaethau perthnasol o fewn, ac ar draws, cynnwys pynciau, meysydd dysgu, a themâu trawsgwricwlaidd; mae hefyd yn arddangos dealltwriaeth o hyn ac yn cynllunio'n briodol yn ôl hynny.

Cydweithredu:

C2	Cydweithio	Ceisio cyngor a chymorth	Mae'r athro'n mynd ati i geisio ac ymwneud â chefnogaeth o ystod ffynonellau ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys arsylwi a dysgu fel tîm, ac arddangos mwy a mwy o annibyniaeth.
----	------------	--------------------------	---

Dysgu Proffesiynol:

DP 1	Dysgu Proffesiynol	Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil	Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth gynyddol hyderus o'r damcaniaethau a'r ymchwil ynghylch asesu, addysgeg, datblygiad plant a'r glasoed, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd.
DP 4	Dysgu Proffesiynol	Sgiliau Cymraeg	Ceir ymrwymiad i ddatblygu sgiliau personol gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.

Arweinyddiaeth:

Ar1	Arweinyddiaeth	Cymryd cyfrifoldeb personol	Mae'r athro'n arddangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda dysgwyr, rhieni/ gofawyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i'r egwyddorion sylfaenol, sef tegwch a gwneud y mwyaf o botensial pob dysgwr.
Ar2	Arweinyddiaeth	Arfer cyfrifoldeb corfforaethol	Mae'r athro'n ymwybodol o'i gyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol, ac mae'n eu deall.

P A P A m s e r		Cyrhaedd iad Disgwyliedig Ar y Trywydd iawn / Rhagori ar Ddisgwyliadau	Rhesymau dros ddechrau'r broses wrth gefn (Mae angen ystyried amgylchiadau personol pob darpar athro)
	Diwedd lleoliad BA1	Hanner 5/10 o'r Llinynnau Canolog i fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Hanner (5/10) o'r Llinynnau Canolog 'ddim eto ar y trywydd iawn' neu'n 'achos pryder'.
		*Gall safonau a llinynnau eraill hefyd fod "ar y trywydd iawn" o leiaf. Nid dim ond profiad y dylai myfyrwyr ei gael o'r Llinynnau Canolog	Caiff safonau eraill eu hasesu fel "achos pryder".
	Canol PAP2	10 Llinyn Canolog "ar y trywydd iawn" o leiaf	Os nad felly y mae, rhaid i'r darpar athro gael ei roi ar Gam 1 y broses Ymyrraeth a nodir targedau priodol.
	Diwedd lleoliad BA2	10 Llinyn Canolog "ar y trywydd iawn" o leiaf	Os nad felly y mae, caiff y darpar athro gellir ei roi ar Gam 1 y Broses Ymyrraeth a nodir targedau priodol ar gyfer PAP2. Mae'r Broses Ymyrraeth i'w hystyried yn y drydedd ysgol leoliad yn ystod diwrnodau paratoi PAP3. Bydd Uwch Fentoriaid PAP2 a PAP3 yn cwrdd i drafod cymorth ar gyfer y darpar athro.
		Rhan fwyaf (2/3) o'r Safonau Addysgeg 'ar y trywydd iawn' o leiaf	
		Mae'r holl llinynnau cydweithredu 'ar y trywydd iawn' o leiaf	
	Canol lleoliad BA3	Pob safon Addysgeg, Cydweithredu a Dysgu Proffesiynol i fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Os nad felly y mae, rhaid i'r darpar athro gael ei roi ar Gam 1 y Broses Ymyrraeth a nodir targedau priodol.
	Diwedd lleoliad BA3	Rhaid i bob un o'r safonau SAC fod 'Arddangoswyd safon SAC' o leiaf.	Yn dibynnu ar broffil y darpar athro, dylid cymryd y camau canlynol:
			Os oes un safon ddim 'Arddangoswyd safon SAC', bydd y darpar athro'n cwblhau tair wythnos ychwanegol yn yr ysgol yn ystod tymor yr haf. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Personol a'r Mentor Dosbarth lle nodir targedau ar gyfer gweddill y lleoliad (cynllun Cymorth Ymyrraeth Cam 1). Caiff y rhain eu hadolygu'n wythnosol drwy gydol y cyfnod o dair wythnos ychwanegol. Petai hyn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol, cyflwynir gradd 'Llwyddo' i'r Bwrdd Arholi ym mis Awst i ganiatáu i'r darpar athro gymhwyso ar gyfer y mis Medi canlynol. Pwynt pwysig i'w nodi yw y gallai hyn olygu nad yw'r darpar athro'n graddio gyda'i gymheiriaid yn ystod tymor yr haf ac y bydd yn

			hytrach yn cael gwahoddiad i fynychu'r seremoni raddio'r flwyddyn academiaidd ganlynol. Os oes dwy safon neu fwy ddim 'Arddangoswyd safon SAC', bydd gofyn i'r darpar athro ailsefyll y lleoliad PAP llawn yn y flwyddyn academiaidd ddilynol. Cyflwynir gradd 'Methu' am y PAP i'r Bwrdd Arholi yn ystod tymor yr haf. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Personol a'r Mentor Dosbarth i nodi targedau ar gyfer y cyfnod lleoliad. Fel arfer, bydd disgwyliadau PAP yn cael eu dilyn.
--	--	--	--


Cynnydd disgwylidig yn erbyn Safonau SAC ar gyfer y rhaglen TAR

		Cyrhaeddiad Disgwyliedig	Rhesymau dros ddechrau'r broses wrth gefn
		Ar y Trywydd iawn / Rhagori ar Ddisgwyliadau	(Mae angen ystyried amgylchiadau personol pob darpar athro)
P A P	Canol PAP1	Mwyafrif 6/10 o'r Llinynnau Canolog i fod "ar y trywydd iawn" o leiaf	Os nad felly y mae, disgwylir i'r Mentor Dosbarth / Pwnc weithio'n agos gyda'r darpar athro i wneud cynnydd am weddill y PAP yn erbyn unrhyw rai o'r Llinynnau Canolog 'Nad ydynt eto ar y Trywydd iawn'.
		*Gall safonau a llinynnau eraill hefyd fod "ar y trywydd iawn" o leiaf. Nid dim ond profiad y dylai myfyrwyr ei gael o'r Llinynnau Canolog	Caiff safonau eraill eu hasesu fel "achos pryder".
	Diwedd PAP1	10 Llinyn Canolog "ar y trywydd iawn" o leiaf	Os nad felly y mae, caiff y darpar athro gellir ei roi ar Gam 1 y broses Ymyrraeth a nodir targedau priodol ar gyfer PAP2.
		Rhan fwyaf (2/3) o'r Safonau Addysgeg 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Mae'r Ymyrraeth i'w hystyried yn yr ail ysgol leoliad yn ystod diwrnodau paratoi PAP2. Bydd Uwch Fentoriaid PAP1 a PAP2 yn cwrdd i drafod cymorth ar gyfer y darpar athro cyn PAP2.
		Pob un o'r llinynnau cydweithredu "ar y trywydd iawn" o leiaf	
A n s e r	Canol PAP2	Pob safon Addysgeg, Cydweithredu a Dysgu Proffesiynol i fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Os nad felly y mae, rhaid i'r darpar athro gael ei roi ar Gam 1 y broses Ymyrraeth a nodir targedau priodol.
	Diwedd PAP2	Rhaid i bob un o'r safonau SAC fod 'Arddangoswyd safon SAC' o leiaf.	Yn dibynnu ar broffil y darpar athro, dylid cymryd y camau canlynol: - Os oes un safon ddim 'Arddangoswyd safon SAC' bydd y darpar athro'n cwblhau tair wythnos ychwanegol yn yr ysgol. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Personol a'r Mentor Dosbarth lle nodir targedau ar gyfer gweddill y lleoliad (cynllun cymorth Ymyrraeth Cam 1). Caiff y rhain eu hadolygu'n wythnosol drwy gydol y cyfnod o dair wythnos ychwanegol. Petai hyn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol, cyflwynir gradd 'Llwyddo' i'r Bwrdd Arholi ym mis Awst i ganiatáu i'r darpar athro gymhwyso ar gyfer y mis Medi canlynol. Pwynt pwysig i'w nodi yw y gallai hyn olygu nad yw'r darpar athro'n graddio gyda'i gymheiriaid yn ystod tymor yr haf ac y bydd yn hytrach yn cael gwahoddiad i fynychu'r seremoni raddio'r flwyddyn academiaidd ganlynol.

			Os oes dwy safon neu fwy ddim 'Arddangoswyd safon SAC', bydd gofyn i'r darpar athro ailsefyll y lleoliad PAP llawn yn y flwyddyn academiaidd ddilynol. Cyflwynir gradd 'Methu' am y PAP i'r Bwrdd Arholi yn ystod tymor yr haf. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Personol a'r Mentor Dosbarth i nodi targedau ar gyfer y cyfnod lleoliad. Fel arfer, bydd disgwyliadau PAP yn cael eu dilyn.
--	--	--	--

Proses a Gweithdrefnau Ymyrraeth

O bryd i'w gilydd, bydd darpar athro ei hun - neu un neu ragor o'r 'tîm o amgylch y darpar athro' - yn nodi bod angen cymorth ychwanegol, strwythuredig a mwy dwys arno ef/hi. Bryd hynny, bydd PDPA yn rhoi cynlluniau cymorth ar waith ac yn gweithredu'r Broses Ymyrraeth. Mae llawer o resymau pam y gallai darpar athrawon gyrraedd man lle bo angen rhoi cynlluniau cymorth ar waith. Mae gweithredu'r Broses Ymyrraeth yn caniatáu rhoi cymorth ar waith cyn gynted ag y bo modd ac yn sicrhau bod y darpar athro'n cael y cyfle gorau i lwyddo, drwy gynllunio camau gweithredu'n amserol a gosod targedau penodol. **Mae trosolwg o'r broses hon wedi'i gynnwys isod, ond cyfeiriwch at y ddogfennaeth lawn ar SharePoint PDPA neu www.athrofa.cymru/cy/mentoriad**



Y tîm o amgylch y darpar athro a chefnogi llesiant

Er ei fod yn broffesiwn boddhaus iawn, rydym yn cydnabod bod addysgu yn hynod o anodd hefyd, a bod addysg gychwynnol athrawon yn gallu bod yn arbennig o anodd. Er mwyn cefnogi ein darpar athrawon, mae PDPA yn gweithredu ‘tîm o amgylch y darpar athro’, sy’n ymgorffori cymorth ar gyfer cynnydd proffesiynol ac academiaidd yn ogystal â llesiant bugeiliol.

Mae gan y tîm hwn rôl hyblyg wrth gefnogi gwahanol setiau o gymwyseddau, e.e. bod yn llwyddiannus yn yr ystafell ddosbarth, coladu tystiolaeth gyfer SAC, neu ddatblygu sgiliau ymchwil wrth gynnig cymorth bugeiliol yn ystod adegau mwy heriol.

Mae’r ‘tîm o amgylch y darpar athro’ yn cynnwys:



Er mwyn datblygu hyder a hunandibyniaeth, mae disgwyl i ddarpar athrawon fod yn rhagweithiol wrth ddefnyddio’r tîm o amgylch y darpar athro i ddatrys problemau a chynnal eu llesiant eu hunain. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod astudio i fod yn athro yn heriol a bod angen gwahanol lefelau o gymorth ar unigolion mewn gwahanol agweddau ar y rhaglen. Rydym yn deall nad yw un-maint-yn-ffitio-pawb ac mae ein ‘tîm o amgylch y darpar athro’ wedi cael ei ddylunio gyda hyn mewn golwg.

Pwy ydym ni?

O ganlyniad i natur gymhleth gweithio mewn partneriaeth, bydd addysgwyr athrawon prifysgol-seiliedig ac ysgol-seiliedig yn gweithio gyda’i gilydd mewn amrywiaeth o rolau i gefnogi darpar athrawon trwy gydol eu rhaglenni. Mae trosolwg o’r rolau a’r cyfrifoldebau wedi’i ddarparu isod, ac mae manylion ychwanegol ar gael ar y tudalennau a ganlyn:

Addysgwyr Athrawon yn yr ysgol

Arweinydd Rhwydwaith:

Uwch aelod o staff o fewn yr ysgol arweiniol sydd ag amser dynodedig ar gyfer datblygu PDPA. Mae’r Arweinydd Rhwydwaith yn cydlynu gweithgarwch AGA, yn cynnal dulliau cyfathrebu da ac yn bwydo i mewn i brosesau sicrhau ansawdd ar draws y rhwydwaith.

Uwch Fentor

Uwch aelod o’r staff addysgu sy’n gyfrifol am gydlynu Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP) ar gyfer nifer o ddarpar athrawon mewn ysgol bartneriaeth (o fewn rhwydwaith) ac yn cefnogi agweddau penodol ar PAP, e.e. cyd-arsylwi gwersi, prosesau wrth gefn. Mae’r Uwch Fentor yn gyfrifol am Sicrhau Ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol bartner.

Mentor Dosbarth / Pwnc:

Y pwynt cyswllt cyntaf yn ystod PAP sy’n cefnogi’r darpar athro wrth goladu tystiolaeth ar gyfer SAC a dod yn athro annibynnol.

Mae'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn cefnogi datblygiad gwybodaeth pwnc a gwybodaeth bedagogaid y darpar athro.

Mentor y Gymraeg:

Unigolyn enwebedig sy'n gallu cefnogi datblygiad sgiliau yn y Gymraeg o fewn lleoliad yr ysgol, a sicrhau bod darpar athrawon yn gallu cael y profiadau sydd eu hangen i gasglu tystiolaeth ar gyfer Fframwaith y Gymraeg.

Addysgwyr Athrawon yn y Brifysgol:

Arbenigwyr Pwnc / Cyfnod sydd â rôl addysgu ac ymchwil yn y brifysgol gan gynnwys cefnogi arbenigedd pwnc/MDaPh, datblygiad sgiliau ymchwil a chyfrannu at waith cyhoeddedig.

O fewn y pennawd eang hwn, bydd gan rai cydweithwyr rolau penodol, a amlinellir isod:

Tiwtor Cyswllt

Addysgwr athrawon prifysgol sy'n gysylltiedig â rhwydwaith penodol i gyd-gynllunio a chyd-

gyflwyno sesiynau Pontio yn yr Ysgol Rhwydwaith Arweiniol ac yn cefnogi agweddau ar waith rhwydwaith gan gynnwys sicrhau ansawdd, asesu, lleoliadau a mentora.


Tiwtor Personol

Dyrennir tiwtor personol i bob darpar athro a fydd yn darparu cymorth bugeiliol trwy gydol y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys negeseuon e-bost 'gwirio' wythnosol tra ar leoliad, ac ymgymryd ag ymweliadau ysgol ac adolygiadau SAC.

Rheolwr Rhaglen

Mae'r Rheolwyr Rhaglen yn goruchwyllo carfan benodol o fyfyrwyr i sicrhau eu llwyddiant academiaidd a phroffesiynol. Maent yn goruchwyllo presenoldeb ac yn gweithio gyda chynrychiolwyr myfyrwyr i sicrhau bod y rhaglenni'n rhedeg yn gydlynol. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar dudalen 48

Mae'r saeth isod yn dangos y llinell gyfathrebu i'w defnyddio gan ddarpar athrawon tra byddant ar PAP. Disgwylir i hyn gael ei ddilyn bob amser:



Nodwch os gwelwch yn dda y bydd Tiwtoriaid Personol yn cysylltu â darpar athrawon yn wythnosol er mwyn gwirio eu llesiant, a byddant yn parhau i fod ar gael i'w cefnogi tra byddant ar leoliad. Os ydych yn ansicr â phwy i gysylltu tra ar PAP, cysylltwch â'ch Tiwtor Prifysgol a fydd yn gallu eich cyfeirio at yr unigolyn priodol.

Rydym yn annog darpar athrawon i gymryd camau rhagweithiol at gefnogi eu llesiant eu hunain. Nid yn unig mae hyn yn agwedd bwysig ar gwblhau'r rhaglen AGA yn llwyddiannus, ond hefyd ar gynaliadwyedd gyrfa yn yr hir dymor.

I gefnogi hyn, mae tîm y brifysgol yn cefnogi dull '25SS' at gyfathrebu trwy e-byst – gofynnwn am hyd at ddau ddiwrnod gwaith i ymdrin ag e-byst (er ein bod yn ceisio ateb cyn gynted â phosibl), ni anfonir e-byst ar ôl 5pm, ac ni anfonir e-byst ar ddydd Sadwrn na dydd Sul.

Yn ogystal, bydd darpar athrawon yn derbyn ystod o offer a chymorth i reoli eu llesiant eu hunain, gan gynnwys cyngor ar reoli amser a mynediad i ystod o offer a gwasanaethau prifysgol a amlinellir isod. Rydym yn defnyddio cyfatebiaeth y 'bwced straen' i helpu myfyrwyr i feddwl am eu lefelau straen a llesiant eu hunain, a darparu geirfa i'w helpu i'w drafod. Cewch ragor o fanylion am y dull hwn yma.

Rydym yn annog darpar fyfyrwyr ar leoliad i barhau gyda'r ymagwedd ragweithiol hon at reoli eu gwytnwch a'u llesiant, ac rydym yn annog mentoriaid i drafod hyn gyda nhw yn rhan o'u cyfarfodydd rheolaidd. Yn ogystal, bydd tiwtoriaid personol yn anfon e-bost cyswllt wythnosol at ddarpar athrawon pan fyddant ar leoliad. Mae hyn yn helpu i ddarparu cymorth parhaus ar draws y rhaglen.

Os oes gennych bryderon am lesiant darpar athro ar leoliad, cymerwch gamau mor fuan â phosibl. Gall problemau o ran llesiant ddod i'r amlwg trwy:

- Hwyliau isel neu dristwch parhaus;
- Colli diddordeb neu chwant bwyd;
- Blinder neu ddiffyg egni;
- Diffyg canolbwytio;
- Hunan hyder gwael neu sylwadau hunanfychanol;

Cynhyrfu neu arafu symudiadau.

Nid yw hyn yn rhestr derfynol a dylid gweithredu ar newid mewn ymddygiad sy'n peri pryder.

Nodwch, unwaith y byddwch wedi rhoi gwybod i ni, efallai y byddwn yn gofyn i chi gyfeirio'r darpar athro i dîm Gwasanaethau Myfyrwyr PCYDDS os oes pryderon ynghylch ymddygiad, diogelwch neu sefyllfa gyffredinol myfyriwr, gan ddefnyddio'r ffurflen 'achos pryder'. Caiff hyn ei gyflwyno i'r tîm, Gwasanaethau Myfyrwyr a fydd yn brysbennu'n briodol. Lle bynnag y bo'n bosibl, anogir partneriaid i lenwi'r ffurflen hon gyda'r myfyriwr a rhannu eu pryderon gyda nhw cyn gynted â phosibl.

<https://live.uniticms.com/uwtsd/register/?form=welfare>

Mae gan ddarpar athrawon fynediad i ystod eang o wasanaethau cymorth ychwanegol trwy dîm Gwasanaethau Myfyrwyr PCYDDS. Mae'r rhain yn cynnwys:



Cyflwynir holl fyfyrwyr PCYDS i 'Togetherall', adnodd cymorth iechyd meddwl ar-lein â mynediad **24/7** a ddefnyddir ar draws y sector addysg uwch (AU). Mae'r gwasanaeth hwn yn sicrhau bod pob myfyriwr yn gallu cael cymorth pan fydd arnynt ei angen ac yn eu grymuso i wella eu llesiant trwy gymryd camau gweithredol i wella iechyd meddwl.

Mae Togetherall yn cynnig:

- Cymorth ar-lein 24/7, sy'n golygu nad oes raid mynd ar y campws i gael cymorth;
- Cyrsiau strwythuredig i'w gwneud eich hun sy'n hyrwyddo iechyd meddwl da

- Cymorth gan gymheiriaid a rhwydweithiau sy'n cael eu monitro gan weithwyr proffesiynol iechyd meddwl.

Sut i gyfeirio myfyrwyr:

- Gall myfyrwyr gofrestru drwy ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost PCYDDS;
- Mae angen iddynt ymweld â www.togetherall.com a chofrestru;
- Ar ôl cofrestru gallant greu enw defnyddiwr anhysbys a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth ar-lein trwy wefan y sefydliad.



Adnodd gwefan iechyd meddwl a llesiant yw **Myf-Cymru** a ddatblygwyd mewn ymateb i'r diffyg adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg.



Mae gan bob myfyriwr fynediad i ddefnyddio'r 'Sorted: mental health' yn RHAD AC AM DDIM. Gall darpar athrawon lawrlwytho hwn ar eu ffonau a datgloi'r holl gynnwys trwy ddefnyddio ein codau prifysgol penodol.

<https://www.feelinggood.app/onboarding/uwtsd-en/>